# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol

# DRAFFT 2021/22
# V2 Yn dilyn adborth gan y Tîm Rheoli Corfforaethol

carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Cynnwys

Cyflwyniad ... 3
Trosolwg ... 5
Darpariaeth Gofal Uniongyrchol /Gofal a Gomisiynwyd ... 23
Gofal Cartref ... 25
Cwynion a Chanmoliaeth ... 27
Y Gweithlu ... 32
Y Gymraeg ... 34
Diweddglo a'r Camau Nesaf ... 35
Strwythur Rheoli'r Adran ... 37

## Dyddiadau cyfarfodydd Swyddogion a chyfarfodydd Gwleidyddol

| | |
|---|---|
| **Y Tîm Rheoli Adrannol (TRhA)** | 11 Gorffennaf 2022 |
| **Y Tîm Rheoli Corfforaethol (TRhC)** | 4 Awst 2022 |
| **Rhag-gyfarfod y Cabinet** | 5 Medi 2022 |
| **Craffu** | Gofal Cymdeithasol ac Iechyd 5 Hydref 2022 |
| **Y Cabinet** | 17 Hydref 2022 |
| **Y Cyngor Sir** | 9 Tachwedd 2022 |

# Cyflwyniad



Dyma fy nawfed adroddiad blynyddol fel Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol. Er mai dim ond rhan o'm rôl gorfforaethol yw'r Gwasanaethau Cymdeithasol, mae'n ofynnol yn statudol i mi adrodd yn flynyddol ar swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol y cyngor.

Roedd 2021/22 wir yn flwyddyn arall gyda heriau annhebyg i ddim a welsom o'r blaen. Roedd yn ofynnol i'r gwasanaethau cymdeithasol ynghyd â holl gyfarwyddiaethau eraill y Cyngor addasu i heriau uniongyrchol ac anuniongyrchol y pandemig. Roedd ein gallu i ymateb yn gyflym ac yn hyblyg tra'n parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn dyst i ymrwymiad ac ymroddiad y gweithlu cyfan, ac ni allaf ddiolch digon iddynt am yr ymrwymiad y maent wedi'i ddangos o ystyried yr heriau cenedlaethol sy'n wynebu'r sector. Rydym wedi perfformio'n eithriadol o dda ar draws y rhan fwyaf o feysydd Gwasanaethau Plant ac Oedolion. Fodd bynnag, rydym bellach yn wynebu heriau uniongyrchol a pharhaus i gynnal y perfformiad uchel hwn.

Mae ymateb y staff ar draws holl swyddogaethau ein gwasanaethau cymdeithasol wedi bod yn eithriadol. Fodd bynnag, mae llawer o'r staff yn dangos arwyddion o ludded, wrth iddynt gael eu herio yn eu bywydau personol gan bwysau costau byw ac yn eu bywydau proffesiynol o reoli achosion a sgil-effaith swyddi gwag ar eu llwythi gwaith.

Mae grymoedd allanol o lai o fudo, chwyddiant cyflogau mewn sectorau eraill, mwy o ymddeoliadau cynnar a staff yn gadael sector heriol i gyd wedi cael eu teimlo yn Sir Gaerfyrddin. Mae hyn wedi gadael y sector ag angen recriwtio 200 o Ofalwyr Cartref ychwanegol, dros 100 o Ofalwyr Preswyl ac o leiaf 30 o Weithwyr Cymdeithasol. Mae hyn, o'i gyfuno â'r galw cynyddol ar ôl Covid ar draws y Gwasanaethau Plant ac Oedolion, wedi peri bod rhestrau aros ar gyfer gofal cartref a gofal preswyl ar y lefelau uchaf ers blynyddoedd lawer.

Yn ystod y 6 mis diwethaf, gwelwyd ystod eang o fentrau i gynorthwyo recriwtio sydd wedi cynnwys ailraddio swyddi, y cynnydd chwyddiannol mwyaf erioed i ddarparwyr gofal, datblygu Academi Gofal, y nifer uchaf erioed o bobl yn cael eu cynorthwyo i ddilyn gradd mewn gwaith cymdeithasol, cyflwyno dros dro atchwanegiadau marchnad a gweithgarwch sylweddol i'n hyrwyddo a'n brandio fel cyflogwr ac i hybu gofal fel gyrfa. Yn ein gwasanaeth mewnol, bu gwelliannau sylweddol o ran recriwtio a chadw staff mewn gofal preswyl er bod enillion wedi bod yn fwy cymedrol o ran llenwi swyddi gwaith cymdeithasol a gofal cartref.

Er bod risg yn cael ei rheoli'n ofalus a bod unrhyw restrau aros yn cael eu monitro'n fanwl ar gyfer risg, mae'n rhaid i mi adrodd yr effeithir ar y dewis o ofal ar adegau a bod lleiafrif sylweddol o bobl yn cael dewisiadau gwahanol i'r anghenion yr aseswyd eu bod ganddynt lle nad yw'r ddarpariaeth orau ar gael. Gofal cartref sydd dan y

pwysau mwyaf er bod y niferoedd sy'n aros am ofal mewn ysbyty wedi gostwng yn agos i lefelau cyn y pandemig. Mae’n dda gennyf ddweud bod pob darparwr gofal cartref bellach yn talu ymhell uwchlaw’r Cyflog Byw Gwirioneddol.

Mae gwasanaethau plant wedi gweld twf bychan ond arwyddocaol yn y nifer ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a’r plant hynny sy’n derbyn gofal. Mae'n hanfodol ein bod yn cwrdd â'r angen hwn mewn modd amserol gyda gwasanaethau ataliol dan bwysau ac yn debygol o fod angen mwy o fuddsoddiad wrth symud ymlaen os ydym am osgoi twf a chost parhaus yn nifer y plant sy'n derbyn gofal.

Er gwaethaf yr amgylchedd heriol hwn rydym yn parhau i berfformio cystal ag y gellid ei ddisgwyl. Yn ein gwiriad sicrwydd yn gynnar eleni, adolygodd AGC sut mae gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant gan ganolbwyntio ar ganfyddiadau diogelwch a llesiant:

> Ar y cyfan, gwelsom fod yr awdurdod lleol yn sicrhau bod lleisiau pobl yn cael eu clywed, bod eu dewisiadau’n cael eu parchu a bod pobl yn cyflawni canlyniadau a nodwyd ganddynt yn rheolaidd. Mae’r arweinwyr yn cadw golwg ar ymarfer rheng flaen gyda chynlluniau clir sydd wedi arwain at ymarfer creadigol.
>
> Gwiriad Sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) 2021:
> Cyngor Sir Caerfyrddin

## *Jake Morgan, Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol*


# Trosolwg

## Gwasanaethau Oedolion

Mae rheoli'r heriau a grëwyd gan y pandemig wedi'i integreiddio i waith bob dydd y gwasanaeth. Mae llwyddiant y rhaglen frechu, a'r lefel uchel iawn gysylltiedig o oedolion sy'n agored i niwed a staff gofal cymdeithasol a fanteisiodd ar y brechiadau, wedi golygu bod effaith trosglwyddiad cymunedol yr haint ar leoliadau gofal wedi gostwng ac mae'r effaith ar oedolion agored i niwed yn gymharol isel hyd yn oed pan fyddant wedi cael eu heintio. Felly, ac eithrio un digwyddiad unigol yn yr haf, nid yw achosion mewn cartrefi gofal wedi arwain at salwch sylweddol na marwolaeth ym mhoblogaeth ein cartrefi gofal er bod Covid wedi cyfrannu at lefelau uwch o absenoldeb staff. Erbyn diwedd y flwyddyn adrodd hon (Ebrill 2022) roedd Covid wedi dod yn rhywbeth i ni ei reoli ar sail ragweithiol, yn hytrach nag ymateb yn gyson yn adweithiol i argyfyngau.


O ganlyniad i'r uchod, rydym wedi cael y cyfle i ganolbwyntio mwy ar ein busnes craidd ac edrych ar sut rydym yn datblygu a siapio ein gwasanaethau fel eu bod yn addas ar gyfer y dyfodol.

Mewn partneriaeth â Llesiant Delta (ein cwmni teleofal hyd braich), rydym wedi parhau i gynnig gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) cryf ac rydym yn dal i weld canlyniadau cadarnhaol gyda nifer sylweddol o ymholiadau heb fod angen cymorth/asesiad parhaus. Fel ym mhob maes, mae recriwtio i'n gwasanaeth IAA yn her a gall, ar adegau, effeithio ar ganlyniadau.





Er bod defnyddio dulliau cyfathrebu rhithwir yn ein helpu i fod yn fwy hyblyg gyda'r defnydd o'n hamser, rydym wedi dychwelyd i gynnig asesiadau wyneb yn wyneb pryd bynnag y gallwn i sicrhau bod ein hymarferwyr yn gallu cynnal asesiad cyfannol o'r unigolyn a gweld sut y gallwn ei gefnogi a chyflawni ei ganlyniadau orau.

Daeth ein her fwyaf yn y problemau recriwtio a chadw sylweddol yr ydym yn eu hwynebu o ran gweithlu gwaith cymdeithasol cymwysedig a gweithlu gofal cymdeithasol heb gymhwyso. O ganlyniad, o safbwynt oedolion hŷn/pobl ag anabledd corfforol, nid ydym wedi cael digon o weithwyr cymdeithasol i asesu pawb sydd angen asesiad mor gyflym ag y byddem yn dymuno. Mae hyn yn golygu ein bod ers mis Hydref 2021 wedi dechrau cael rhestrau aros sylweddol ar gyfer asesiadau ac yn blaenoriaethu'r rhai sydd â'r angen mwyaf brys yn ofalus. Er gwaethaf hyn mae'r rhestrau aros wedi gostwng yn gyson.




Mae hwn yn ddarlun cyffredin ledled Cymru ac mae'n adlewyrchu'r gostyngiad yn nifer y gweithwyr cymdeithasol a'r cynnydd yn y galw. Mae rhywfaint o gynnydd wedi ei wneud o ran lleihau'r nifer sy'n disgwyl ers yr hydref ac wrth i ni benodi mwy o staff gwaith cymdeithasol byddem yn disgwyl i'r niferoedd sy'n aros ostwng ymhellach.




Er bod gennym nifer o welyau gofal preswyl ar gael i ni o hyd, mae nifer yr oriau gofal cartref a gomisiynwyd sydd ar gael wedi gostwng yn sylweddol ers haf 2021.

Mae ein gwasanaeth mewnol wedi aros yn weddol gyson gyda lefelau gwell o recriwtio a chadw.

Arweiniodd y capasiti llai hwn at gynnydd yn y rhai oedd yn disgwyl am ofal tua diwedd y flwyddyn ddiwethaf. Er ei fod wedi sefydlogi ers hynny, araf fu'r cynnydd i leihau'r niferoedd sy'n disgwyl. Mae gwelliannau mewn perfformiad ailalluogi wedi gwella’r darlun ers mis Mawrth ac mae’r niferoedd oedd yn aros rhwng mis Mawrth a mis Mai 2022 wedi gostwng bron i 25% gyda 150 o gleientiaid yn dal i ddisgwyl i ofal gael ei ddyrannu’n ffurfiol.

Rydym felly wedi gorfod blaenoriaethu’r rhai sydd â’r angen mwyaf sy’n disgwyl am ofal. Wrth wneud hyn rydym yn gweithio’n agos gydag unigolion a theuluoedd i ystyried dewisiadau eraill megis gwelyau preswyl cam-i-lawr dros dro neu dalu i deuluoedd i ddarparu cymorth dros dro drwy ein Grant Cymorth Llesiant hyd nes y gallwn sicrhau’r gofal. At hynny, rydym wedi cynnig cymorth brys dros dro drwy wasanaeth CONNECT Llesiant Delta er mwyn osgoi derbyniadau i ysbytai neu gartrefi gofal. Rydym wedi bod yn ddarparwr cymharol uchel o wasanaethau gofal statudol erioed ac mae’r pwysau hwn yn ddi-os wedi ein gorfodi i arloesi’n well a lleihau unrhyw ddarpariaeth ddiangen. Fodd bynnag, ni allwn ddarparu’r gwasanaeth y mae arnom eisiau nes bydd y sector cyfan wedi recriwtio digon o staff.

Oherwydd yr heriau sylweddol y buom yn eu hwynebu ynghyd â phwysau staffio, sefydlais Grŵp Rheoli Aur Gofal Cymdeithasol, yr wyf wedi ei gadeirio gyda chynrychiolaeth ar draws pob is-adran, ac Adnoddau Dynol, Cyllid a Chyfathrebu i sicrhau y gallem reoli’r risgiau’n effeithiol a darparu’r sicrwydd corfforaethol angenrheidiol. Mae’r Grŵp Rheoli Aur hwn bellach wedi cael ei dynnu’n ôl ar y sail bod yr holl reolaethau ar waith, ond rydym bellach yn canolbwyntio ar sut yr ydym yn recriwtio ac yn cadw gweithlu cynaliadwy (gweler adran y Gweithlu).

Mae’r argyfwng yr ydym wedi’i wynebu hefyd wedi ein hannog i arloesi a meddwl yn greadigol am y ffordd orau o gefnogi’r bobl fwyaf agored i niwed yn ein poblogaeth. Mae gwasanaethau newydd wedi cael eu creu i gefnogi defnyddwyr agored i niwed sy'n ateb y galw mewn ffyrdd gwahanol.

Un enghraifft o'r fath yw datblygiad y Tîm Gofal Canolraddol Amlddisgyblaethol a oedd yn canolbwyntio i ddechrau ar gynorthwyo cleifion ysbyty i ddychwelyd adref o fewn 72 awr i'w derbyn. Mae’r tîm yn gydweithrediad rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac mae’n cynnwys cangen ymateb i argyfwng Tîm Ymateb Acíwt y Bwrdd Iechyd yn ogystal â Meddygon Teulu, Ffisiotherapyddion, Therapyddion Galwedigaethol, Gweithwyr Cymdeithasol, Swyddogion Llesiant Cymunedol Llesiant Delta a Gwasanaeth Ailalluogi’r Cyngor. Cafodd ei lwyddiant ei gydnabod drwy ennill Gwobr Arian yng Ngwobrau diweddar IESE yn ogystal â Thîm y Mis y Bwrdd Iechyd. Mae’r tîm i gael ei ehangu'n fuan i ganolbwyntio hefyd ar osgoi derbyniadau i'r ysbyty yn ogystal â chefnogi argyfwng yn y gymuned. Bydd yn gweithio ochr yn ochr â’n drws ffrynt i iechyd a gofal cymdeithasol i ddarparu’r cymorth tymor byr sydd ar bobl ei angen i’w cadw’n ddiogel ac yn annibynnol gartref tra bydd asesiad yn cael ei gynnal i bennu’r anghenion hirdymor.

Ochr yn ochr â’r Tîm Gofal Canolraddol Amlddisgyblaethol mae datblygiad Tŷ Pili-Pala, uned cam-i-lawr 14 gwely, sy’n rhan o Gartref Preswyl Llys y Bryn y Cyngor. Unwaith eto, mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd i ganiatáu ar gyfer ailalluogi dan arweiniad therapi gyda golwg ar gynorthwyo pobl i fedru dychwelyd adref a byw'n annibynnol.

Ar ddechrau’r pandemig yn unol â chyngor y llywodraeth a natur hynod fregus ein grwpiau cleientiaid yn wyneb Covid, bu’n rhaid i ni gau’r rhan fwyaf o’n **Gwasanaethau Dydd** ar unwaith ac atal dros dro y rhan fwyaf o’r cyfnodau seibiant oedd wedi eu cynllunio mewn cartrefi gofal.

Ar gyfer pobl hŷn rydym wedi ceisio edrych ar ffyrdd mwy arloesol o sut y gallwn barhau i'w cynorthwyo i gyflawni’r canlyniadau fyddai orau ganddynt a darparu rhywfaint o seibiant i unigolion a theuluoedd. Ar sail peilot, rydym wedi cynnig cymorth 1 i 1 gartref i’r rhai a fynychodd ein gwasanaethau dydd yn y gorffennol yn ogystal â chynnig gwasanaeth dydd rhithwir drwy ddarparu llechen electronig bwrpasol i gyfranogwyr fel y gallant gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp rhithwir fel bingo, sgyrsiau dros goffi a dosbarthiadau ymarfer corff. Ar adeg ysgrifennu’r adroddiad, rydym yn y broses o ailagor dau o’n gwasanaethau dydd wyneb yn wyneb yn raddol. Rhagwelir y bydd y gwasanaethau hyn yn rhan o’r cyfleoedd dydd y byddwn yn eu cynnig ochr yn ochr â chymorth 1 i 1 yn y cartref a chynnig teleofal ar-lein a ddatblygwyd drwy Llesiant Delta. Mae seibiant preswyl cynlluniedig hefyd wedi dechrau dod yn ddewis mwy ymarferol wrth i ddefnyddwyr ddod yn fwy hyderus i ddefnyddio gwasanaethau.

Mae sicrhau bod y bobl yr ydym yn gweithio gyda hwy yn medru cael llais, dewis a rheolaeth yr un mor bwysig, ac yn y cyd-destun hwn rydym wedi parhau i gyfrannu i’r agenda comisiynu rhanbarthol, gan gynnwys adolygu gwasanaethau eiriol a chomisiynu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol. Llwyddasom hefyd i ddod â’n Gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol yn ôl i mewn ym mis Ebrill 2021 oddi wrth ein darparwr, oedd wedi ei gomisiynu o’r blaen. Rhoddodd hyn gyfle i ni roi gwell cymorth i ddatblygu Taliadau Uniongyrchol yn lle gwasanaethau uniongyrchol i'r rhai oedd eu hangen.

Mae **Cyfleoedd Dydd Anabledd Dysgu** yn hanfodol i gefnogi oedolion yn y gymuned. O ganlyniad, rydym wedi parhau i gynyddu nifer y bobl y gallwn eu cefnogi wrth i ni ailagor ein hadeiladau yn raddol. Rydym hefyd wedi cynnig cymorth gartref ac amrywiaeth o weithgareddau rhithwir ar-lein sy'n parhau i fod yn boblogaidd ymhlith y rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau a'u gofalwyr. Mae'r gweithgareddau a ddarperir yn cynnwys ymarfer corff, cwisiau, a sesiynau coginio, mae pecynnau gwaith coed a gweithgareddau crefft hefyd wedi'u dosbarthu i gartrefi unigol i'w galluogi i ymuno â'r arddangosiadau rhithwir.

Mae'r Gwasanaethau Anabledd Dysgu wedi addasu a datblygu mentrau newydd mewn ymateb i alwadau cynyddol. Rydym wedi sefydlu cyfleoedd newydd yn ardal Llanymddyfri i gynorthwyo pobl i gael mynediad at weithgareddau cymunedol a meithrin perthynas â phobl yn nes at adref. Mae grŵp cerdded newydd yn benodol i ofalwyr wedi cael ei sefydlu drwy'r prosiect cyfeillion ymarfer corff, sy'n profi'n

boblogaidd ac sydd newydd dderbyn eu crysau T brand eu hunain ac yn y blaen, ac mae'r holl ganolfannau wedi gweld cynnydd sylweddol yn eu niferoedd presenoldeb.

Roeddem yn falch o ddathlu llwyddiannau un o'n Cysylltwyr Cymunedol, Fran Horton, a enillodd Brentis y Flwyddyn Datblygu Cymunedol Coleg Gŵyr Abertawe ym mis Chwefror ar ôl cwblhau ei QCF Lefel 3 mewn Datblygu Cymunedol. Rôl Fran yw hyrwyddo cynhwysiant ac ymgysylltiad drwy annog unigolion i ddatblygu rhwydweithiau newydd yn eu cymuned leol fel y gallant ddefnyddio eu hasedau eu hunain ac asedau eu cymuned i gyflawni'r canlyniadau sy'n bwysig iddynt.

Mae Cysylltu Bywydau yn wasanaeth yr ydym yn ei redeg ar ran y rhanbarth i ddarparu cartrefi cefnogol i oedolion ag ystod o anghenion. Ar ôl adolygiad, mae'r gwasanaeth wedi cael ei ailstrwythuro ac mae hwn bellach yn ymsefydlu. Aeth ein porth recriwtio ar-lein newydd yn fyw ym mis Chwefror ar gyfer Gofalwyr Cysylltu Bywydau. Mae hwn yn cynnig llwyfan haws ei ddefnyddio a mwy effeithlon ar gyfer dod yn Ofalwr Cysylltu Bywydau. Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar gynyddu nifer ac ystod y gofalwyr sydd ar gael ar draws y rhanbarth. Mae grwpiau hyrwyddwyr bellach yn cael eu rhedeg ar draws y sir i godi ymwybyddiaeth a darparu cymorth ac mae'r tîm yn datblygu cyfarfodydd cyfeirio ardal ar gyfer unrhyw dimau sy'n dymuno atgyfeirio i'r gwasanaeth.

Sefydlwyd cam cyntaf y model newydd ar gyfer anabledd hefyd yn ystod 2020 gan ddechrau gyda'r gwasanaeth 0 i 25 oed lle mae ein Tîm Plant ag Anableddau a'n gwasanaethau oedolion yn darparu trosglwyddiadau di-dor i ddefnyddwyr o Wasanaethau Plant i Wasanaethau Oedolion. Mae'r adborth cychwynnol gan y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau, eu gofalwyr a gweithwyr proffesiynol yn gadarnhaol iawn. Wrth symud ymlaen, dylai hyn alluogi gwell paratoad ar gyfer plant ag anabledd wrth iddynt drosglwyddo i wasanaethau oedolion ac osgoi'r ymdeimlad o ymyl dibyn gofal y mae teuluoedd wedi adrodd amdano yn y gorffennol.

Rydym yn cydnabod bod y pandemig wedi bod yn gyfnod hynod o heriol i ofalwyr sydd wedi bod yn ymdopi â llai o gymorth a seibiant. Drwy drefniadau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, rydym wedi parhau i addasu ein cynnig i ofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn gallu parhau i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Mae'n dda iawn gennyf ein bod wedi gallu cyhoeddi'r Strategaeth Gofalwyr Ranbarthol ac rydym wedi gallu cefnogi gweithrediad parhaus y cynllun gweithredu lleol a rhanbarthol.

Mae'r timau gwaith cymdeithasol a staff gwasanaethau dydd wedi cadw mewn cysylltiad â gofalwyr ac wedi darparu cymorth pan oedd angen. Mae llawer o'n staff naill ai wedi cyflawni neu wrthi'n ymgymryd â'r Wobr Buddsoddwyr mewn Gofalwyr sy'n gydnabyddiaeth o'r cymorth a ddarperir i ofalwyr. Mae pob tîm gwaith cymdeithasol o fewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion hefyd wedi nodi Hyrwyddwyr Gofalwyr yn glir.

Mae'r pandemig wedi bod yn heriol i bawb, ond mae'r effaith ar iechyd meddwl a llesiant llawer o bobl yng Nghymru a Sir Gaerfyrddin yn sylweddol. Wrth gynllunio ar gyfer hyn, mae'r cyngor wedi buddsoddi adnoddau twf sylweddol i fynd i'r afael â hyn, a defnyddiwyd hwy gennym i recriwtio mwy o staff gwaith cymdeithasol a gofal

cymdeithasol i ganolbwyntio ar ddau faes penodol: ymyrraeth gynnar ac atal ac ymateb brys mwy cadarn a phrydlon. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, buom yn cydweithio â'r Bwrdd Iechyd a'r trydydd sector i ddatblygu mentrau yn hyn o beth i ddatblygu Un Pwynt Mynediad a gwasanaeth ymateb mewn argyfwng 24/7. Mae'r Noddfa Min Nos sy'n ymateb i argyfyngau yn Llanelli, oedd yn cael ei arwain gan y cyngor, yn mynd o nerth i nerth ac mae'r model bellach yn cael ei gyflwyno ar draws y rhanbarth. O safbwynt gwasanaeth yr Ymarferwyr Iechyd Meddwl Cymeradwy (AMHP), bu'n fusnes fel arfer, ac maent wedi parhau i gyflawni eu dyletswyddau statudol drwy gydol y pandemig.

O fewn gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu, rydym yn cychwyn ar raglen o newid uchelgeisiol mewn perthynas â llety. Ein gweledigaeth yw lleihau ymhellach y ddibyniaeth ar ofal preswyl a datblygu mwy o ddewisiadau llety cymunedol, sy'n hybu dewis ac annibyniaeth. Yn 2021, fe wnaethom gomisiynu'r Rhwydwaith Gwella Dysgu Tai (LIN) i gynnal ymarfer mapio anghenion llety ar gyfer iechyd meddwl. Rydym wedi defnyddio'r data hwn i sefydlu cynllun llety pedair blynedd ac i gydweithio â chydweithwyr ym maes Tai, Comisiynu a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, i ddatblygu amrywiaeth o brosiectau llety cymunedol o denantiaethau annibynnol i leoliadau a rennir.

Mae Anabledd Dysgu ac Iechyd Meddwl bellach yn flaenoriaeth yn strategaeth dai y cyngor. Rydym wedi gallu cael mynediad at stoc tai'r cyngor ac adeiladau newydd ar gyfer y rhai sy'n gallu byw'n annibynnol. Mae ein hadran dai wedi prynu eiddo a gwneud yr addasiadau angenrheidiol i ddarparu ar gyfer rhai ag anghenion cymhleth.

Mae'n bleser gennyf adrodd, er gwaethaf heriau'r pandemig, fod y gwaith hwn wedi parhau'n amcan allweddol i'r is-adran. Rydym wedi datblygu nifer o brosiectau llety mewn partneriaeth â'n cydweithwyr yn yr adran dai ac wedi galluogi ugain o oedolion i gamu i lawr o ofal preswyl i fyw'n fwy annibynnol.

Mae atal hunanladdiad a hunan-niwed hefyd yn flaenoriaeth i'r rhanbarth, ac mae'r gwaith hwn yn cael ei arwain gan Bennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Un o flaenoriaethau presennol y rhanbarth a Sir Gaerfyrddin yw sefydlu ymateb cyflym aml-asiantaeth i hunanladdiad. Mae'r model hwn yn cael ei ddatblygu dan ymbarél y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Mae'r model ymateb cyflym yn gyfarfod lle, mewn achos o hunanladdiad, bydd sefydliadau ac eraill perthnasol yn dod at ei gilydd yn gyflym i edrych ar bwy yr effeithiwyd, pwy sydd angen cymorth a beth sydd angen ei wneud i atal digwyddiadau pellach. Yna bydd yn cael ei ymestyn i gynnwys achosion lle na chafodd hunanladdiad ei gwblhau. Mae'r model hwn eisoes wedi'i fabwysiadu mewn rhannau eraill o Gymru ac fe'i hystyrir yn arfer da i atal hunanladdiad a hunan-niwed.

Mewn perthynas â'r Tîm Camddefnyddio Sylweddau, gwelsom gynnydd yn y galw a'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â'r pandemig. Buom yn cydweithio â phartneriaid i ddatblygu llwybrau arloesol ar gyfer cyd-forbidrwydd fel iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau a niwed i'r ymennydd sy'n gysylltiedig ag alcohol.

## Diogelu Oedolion

Mewn perthynas â diogelu oedolion, mae'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a'r is-grwpiau cysylltiedig wedi parhau i gyfarfod yn rhithwir. Roeddem yn rhan o Grŵp Aml-asiantaeth Rhanbarthol Ymateb i Covid oedd yn cyfarfod yn wythnosol i gael sicrwydd ynghylch ymatebion diogelu yn ystod y pandemig. Mae trefniadau MAPPA, MARAC a VAWDASV hefyd wedi parhau. Rydym wedi parhau i weithio o fewn y Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion Cymru Gyfan newydd ac mae Sir Gaerfyrddin wedi arwain ar nifer o ddatblygiadau gan gynnwys polisi rhanbarthol ar hunan-esgeuluso.

Mae Tîm Diogelu Oedolion Sir Gaerfyrddin yn uchel ei barch ar draws y rhanbarth a derbyniodd adborth cadarnhaol yn dilyn ymweliad Sicrwydd AGC yn 2021. Rydym wedi gweld cynnydd mewn gweithgarwch diogelu a chynnydd yng nghymhlethdod yr atgyfeiriadau gyda hyd at 25 o atgyfeiriadau yr wythnos. Tynnwyd sylw at ein rheolaeth risg effeithiol gan AGC:

> Roedd atebion wedi'u cydgynhyrchu yn amlwg ac roedd canlyniadau cadarnhaol i bobl a oedd yn destun ymyriadau diogelu. Cynhaliwyd ymholiadau ac ymchwiliadau diogelu yn unol â gofynion statudol, roedd dadansoddiad da o risg, roedd cynlluniau amddiffyn yn eu lle a chamau wedi'u cymryd pan oedd angen. Dywedodd darparwyr a phartneriaid eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm diogelu oedolion; cydnabuwyd eu parodrwydd i gynnig cyngor, arweiniad a chymorth gyda hyfforddiant gweithwyr gofal cymdeithasol.
>
> **“Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) 2021”**

Cytunwyd ar ddull rhanbarthol cadarn o reoli awdurdodiadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DOLS) newydd a rhai oedd yn bod eisoes yn ystod y pandemig. Mae’r dull hwn yn sicrhau bod egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn cael eu cynnal ac mae’n gyson â’r canllawiau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru. O ganlyniad, rydym wedi paratoi’n dda ar gyfer gweithredu’r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid newydd ym mis Ebrill 2023.

Mae nifer y ceisiadau DOLS wedi bod yn gyson yn ystod y 12 mis diwethaf. Oherwydd y cyfyngiadau ar ymweld mewn cartrefi gofal, mae’r asesiadau wedi cael eu cynnal o bell yn unol â chanllawiau cenedlaethol ac arfer da. Rhoddir blaenoriaeth i asesiadau o ran brys ac mae proses archwilio gadarn yn ei lle i sicrhau bod egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) yn cael eu dilyn.

## Gofal trwy Gymorth Dechnoleg

Mae Llesiant Delta yn eiddo’n gyfan gwbl i’r Cyngor ac fe’i crëwyd i’n galluogi i arloesi a darparu gofal. Bu’r gwasanaeth yn amhrisiadwy o ran ein galluogi i ymateb i anghenion pobl agored i niwed yn ystod y pandemig. Gan gyflogi bron i 150 o bobl a

darparu gwasanaethau yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, mae'r gwasanaeth yn un o'r arweinwyr yn y DU o ran darparu Gofal wedi'i Alluogi gan Dechnoleg (TEC) arloesol.

Cymerodd Sir Gaerfyrddin y gorau o ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol integredig yn Sbaen a datblygodd y prosiect TEC CONNECT. Mae'r gwasanaeth arloesol hwn yn darparu tele-fonitro integredig rhagweithiol 24 awr a galwadau llesiant, cynlluniau llesiant a llwybrau cymorth yn y gymuned gyda thîm ymateb cyflym pan fo defnyddwyr agored i niwed mewn argyfwng. Mae elfen ymateb cyflym y gwasanaeth bellach wedi'i chofrestru ag AGC ac mae wedi cael arolygiad diweddar a oedd yn hynod o gadarnhaol.

> "Mae pobl a'u perthnasau'n siarad yn gadarnhaol am y gofal a'r cymorth â therfyn amser y maent yn ei dderbyn drwy Llesiant Delta a'r cymorth a'r sicrwydd parhaus a ddarperir drwy CONNECT, y rhan o'r gwasanaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio. Mae staff gofal yn dangos gwybodaeth dda am anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi a brwdfrydedd dros weithio i Llesiant Delta."
>
> **"Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) 2022"**

Cyfanswm yr unigolion sydd wedi cael cymorth drwy CONNECT yn Sir Gaerfyrddin yw 3089, a chan Sir Gaerfyrddin mae'r nifer fwyaf o bobl yng Nghymru a gefnogir gan deleofal.

Mae'r gwasanaeth wedi cael ei gydnabod fel arfer gorau yn y DU, gan fod yn enghraifft o'r gwaith sy'n cael ei gyflawni ar draws ffiniau sectorau ac mae'n cynnig dull arloesol o ddarparu llesiant, gofal a chymorth, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae CONNECT wedi helpu i drawsnewid y ffordd yr ydym yn darparu gofal, drwy weithredu'r model newydd hwn o hunangymorth a gofal rhagweithiol, gan ddefnyddio TEC, sydd wrth wraidd y prosiect, i wella llesiant, helpu pobl i aros yn annibynnol am gyfnod hwy a lleihau'r galw am ofal hirdymor neu acíwt. Mae CONNECT yn darparu gwasanaeth cofleidiol sy'n galluogi pobl i aros yn hyderus ac yn ddiogel gartref ac yn y gymuned.

Mae'r Gwasanaeth Ymateb Cyflym Cymunedol wedi mynychu dros 5800 o alwadau i gartrefi cleientiaid ers mis Ebrill 2020 gan sicrhau eu bod yn cael y cymorth cywir ar yr amser cywir. Gyda dim ond 7% o'r galwadau hynny angen eu huwchgyfeirio i'r gwasanaethau brys mae cyfran uchel o gleientiaid CONNECT sydd wedi dioddef codwm heb fod yn anafus, wedi osgoi gorwedd yn hir ac yn y pen draw taith hir i'r ysbyty oherwydd y disgwyl digynsail sydd am ambiwlansys, ac wedi cael eu codi oddi ar y llawr a'u cefnogi gan y tîm.


0300 333 2222 www.deltawellbeing.org.uk @deltawellbeing Llesiant Delta Wellbeing contactus@deltawellbeing.org.uk

**Carmarthenshire's Delta CONNECT offers "a lifeline" to Edward during pandemic lockdown**

**When 82-year-old widower *Edward returned to his Llandovery home from a long spell in hospital at the end of 2019, his son, daughter in law and daughter would visit several times a day to help support him in his everyday life and keep an eye on him.**

However, everything changed when the lockdown started. Edward began shielding and frequent visits were no longer as easy.

Edward began using the Delta CONNECT service in March 2020 and it has meant the world to him. His mood was extremely low after his lengthy stay in hospital and he had lost a lot of weight, which left him feeling frail and vulnerable.

As part of the CONNECT service, his assigned Community Wellbeing Officer (CWO) Louise called him weekly to check how he was and whether he needed any help. He also had a Lifeline home unit with pendant to call for help in an emergency.

**"I'd been in hospital for four months and was really down in the dumps." Edward said, "It really helped when I spoke to Louise. She brought me back from the depths of despair."**

For many clients, the service includes food or medical supplies, but Edward was lucky enough to have his family living locally to help with this.

"I'm so lucky to have a fantastic family nearby and they really look after me, but sometimes it's easier to talk to someone outside of your family because you don't want them to worry any more that they already are."

**"I can't speak highly enough of CONNECT. Knowing that there was someone at the end of the phone for me was a lifeline and so reassuring for my family as well."**

The CWOs are trained to identify clients who may need additional support, even when the client hasn't recognised that need themselves - this has helped Edward's family know that he is safe and supported at home even when they can't be there

Edward's son *Jonathan said: "The Delta service means a lot to my dad and he feels genuinely privileged to be able to access it. The Lifeline system is invaluable for him and although we're close by, it's reassuring for the family to know that help is on hand should he need it.

"The wellbeing calls have been fantastic - he enjoys having someone different to talk to and really looks forward to the calls every week. In a few years I'll probably be signing myself up."

***Names have been anonymised**

Proud to be working in partnership with:

Yn ddiweddar rydym wedi sefydlu ein gwasanaeth ar safleoedd y ddau ysbyty acíwt gyda Swyddogion Llesiant Delta, sy'n gallu cynnig gwybodaeth a chyngor ar y safle a brysbennu atgyfeiriadau newydd i benderfynu a oes ar gleifion angen asesiad pellach. Maent yn gyswllt hanfodol rhwng ward yr ysbyty a gofal cymdeithasol i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y broses o ryddhau cleifion mor syml â phosibl.

Rydym wedi gweithio'n galed i ddatblygu arbenigedd ein Swyddogion Ymateb rheng flaen a'n Swyddogion TEC dros y flwyddyn ddiwethaf, gan ddatblygu'n benodol y sgiliau sy'n caniatáu iddynt nodi materion sy'n peri pryder. Mae eu "llygaid agored" o fewn yr eiddo yn amhrisiadwy i nodi unrhyw bryderon ynghylch llesiant unigolyn a sicrhau'r uwchgyfeirio neu'r ymateb priodol.


Ehangwyd y Gwasanaeth Ymateb Cyflym Cymunedol yn ddiweddar i gynorthwyo cleifion i ddychwelyd adref yn ddiogel, gan sicrhau bod y cymorth iawn ar gael i atal eu derbyn eto i'r ysbyty. Yn ogystal, ceir pecynnau gofal dros dro, lle mae dyddiad cychwyn ar gyfer rhywun yn gadael yr ysbyty. Mae'r gwasanaeth hwn wedi galluogi cleientiaid i ddychwelyd adref o'r ysbyty'n gynt ac wedi rhyddhau lleoedd mewn gwlâu yn ystod yr hyn sy'n parhau i fod yn amser heriol i'n hysbytai lleol a'n gwasanaethau gofal cartref.

Wrth i ni barhau i godi proffil gwasanaeth CONNECT a'r cymorth hanfodol y mae wedi'i ddarparu hyd yma, mae Delta wedi cael eu cydnabod mewn nifer o wobrau proffil uchel ar draws categorïau amrywiol o arloesi, effaith ddigidol, gweithio mewn partneriaeth, integreiddio gofal ac iechyd a thrawsnewid. Yn 2021 derbyniodd Delta Wobr Arian yng Ngwobrau Trawsnewid Sector Cyhoeddus iESE am 'Arloesi' ac roeddent hefyd yn enillydd yng Ngwobrau Busnes Bae Abertawe 2021 ar gyfer 'Gwasanaeth Cwsmeriaid'. Yn olaf, yn 2022, enillodd Delta Connect yng Ngwobrau mawreddog y Management Journal Awards am yr enghraifft orau o Integreiddio Gofal ac Iechyd. Mae potensial teleofal a theleiechyd i'r dyfodol yn sylweddol ac mae gwaith manwl ar y gweill i integreiddio'r gwasanaeth gyda

byw â chymorth ym Mhentre Awel, Llanelli a gwaith monitro ac ymyrryd ehangach yn achos cyflyrau cronig.

## Gwasanaethau Plant

Mae gwasanaethau plant wedi parhau i weithredu'n effeithiol drwy gydol y pandemig a'r cyfnodau clo ac mae'r gwaith wedi gorfod esblygu ac addasu'n barhaus i sicrhau bod ein staff, a'r plant a'r teuluoedd yr ydym yn ymweld â hwy yn cadw'n ddiogel wrth ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru o ran cyfyngiadau Covid. Mae'r pandemig hefyd wedi parhau i ddangos manteision a chyfleoedd gweithio digidol sydd yn aml wedi cynyddu ymgysylltiad, yn enwedig gyda'r rhai na fyddent efallai wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd fel arall, gan ddarparu gwell mewnwelediad a chyfleoedd a helpu i wella canlyniadau. Er bod Covid wedi dominyddu'r ddwy flynedd ddiwethaf, mae hefyd yn bwysig myfyrio ar y gwaith heriol a'r ffyrdd arloesol y mae ein gweithwyr wedi eu mabwysiadu drwy gydol y pandemig wrth barhau i gefnogi plant a theuluoedd.




**Cynnydd yn ystod y Flwyddyn:**

Mae effaith pandemig Covid wedi rhoi pwysau sylweddol ar deuluoedd ac wedi achosi heriau digynsail i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn Sir Gaerfyrddin yn cael eu diogelu. Mae gwasanaethau plant wedi gweld cynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau a chymorth, gyda **nifer y cysylltiadau** â'r adran yn parhau i godi.

Fodd bynnag, rydym yn parhau i berfformio'n dda er gwaethaf y pwysau ychwanegol hyn. Cwblhawyd 90.2% o asesiadau newydd o fewn y cyfnodau amser statudol. Mae'r cynnydd mewn cysylltiadau ynghyd ag absenoldeb/salwch staff, cyfyngiadau Covid ac anawsterau recriwtio i gyd wedi bod yn heriau ychwanegol gan arwain at rai llwythi achosion uwch na'r arfer. Hefyd, o fewn gwasanaethau ataliol mae'r cynnydd

yn y galw ac effeithiau'r Covid a'r cyfyngiadau wedi golygu bod llai o argaeledd gan roi mwy o bwysau ar y gwasanaethau statudol.

Mae tystiolaeth dda o hyd yn y sampl o **asesiadau a archwilir yn fisol** o farn plant a sut beth yw bywyd iddynt, ac mae ymarferwyr yn defnyddio ystod ehangach o offer i wneud hyn yn bosibl. Ceir tystiolaeth o gydweithio gyda phlant, rhieni, a theulu estynedig ac mae asesiadau'n cyfeirio fwyfwy at y cyfraniad y mae Cyfarfod Rhwydwaith Teulu wedi ei wneud i'r asesiad o ran nodi ffynonellau cymorth a theulu/ffrindiau sydd wedi helpu i lunio cynllun diogelwch sy'n sicrhau bod anghenion plentyn yn cael eu hateb yn briodol.

Mae'r **dull o ddarparu gwasanaethau gwaith cymdeithasol sy'n seiliedig ar berthynas** i blant ac i deuluoedd, gan ymgorffori meddwl systemig ac egwyddorion *Signs of Safety*, wedi cael ei sefydlu ym mhob tîm gofal plant gan gynnwys y gwasanaeth anabledd 0-25. Mae cyfraniadau gan wasanaethau oedolion mewn podiau hefyd yn cynyddu, megis camddefnyddio sylweddau ac anabledd dysgu, i ymgorffori persbectifau gwahanol am deulu mewn trafodaethau podiau a'r camau gweithredu a'r cynlluniau dilynol.

Mae trafodaethau pod yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb eto yn hytrach nag o bell lle bynnag y bo modd. Ystyrir ei fod yn fwy effeithiol rhannu meddyliau a gwybodaeth am achosion ac mae staff yn gwerthfawrogi'r cymorth hwn gan gymheiriaid gan ei fod yn helpu i leihau'r teimladau o unigedd.


Bydd sesiynau gorfodol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol yn eu blwyddyn gyntaf o ymarfer yn cynnwys mewnbwn ar ymarfer systemig gan alluogi gweithwyr cymdeithasol o'r gwasanaethau plant ac oedolion i gael cyfleoedd i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau. Mae dros 20 o reolwyr ac uwch weithwyr cymdeithasol wedi cwblhau hyfforddiant lefel sylfaen eleni sydd wedi ehangu eu gwybodaeth a'u hyder wrth ddefnyddio meddwl systemig a sicrhau dull cyson.

Mae'r ffocws yn parhau ar Gyfarfodydd Rhwydwaith Teuluol sy'n arf hanfodol mewn timau asesu a gofal plant. Mewn cydweithrediad â 'Gofod Cyfunol' mae ymarferwyr wedi datblygu pecyn hyfforddi fydd yn cael ei gyflwyno'n rheolaidd yn y dyfodol, yn ogystal â hyfforddiant asesu risg mwy arbenigol.

Rydym wedi parhau i ddilyn trothwy rhanbarthol a **threfniadau amddiffyn plant aml-asiantaeth** gan sicrhau ymyrraeth gynnar a defnyddio gwasanaethau ataliol i leihau'r angen am gyfranogiad statudol lle bynnag y bo modd. Cynhaliwyd diwrnod datblygu rhanbarthol ym mis Mai 2021 yn cael ei hwyluso gan Gladys White OBE, oedd yn gyfle i staff ystyried deddfwriaeth, canllawiau, ac arferion amddiffyn plant ar draws y rhanbarth a sicrhau bod risgiau'n cael eu deall a'u cymhwyso'n gyson.

Cafodd y sesiwn dderbyniad da, ac roedd adborth yn amlygu'r fantais i weithwyr gael amser i fyfyrio a gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr o wahanol asiantaethau, ac ar draws awdurdodau lleol eraill yn y rhanbarth, a rhoddodd sicrwydd bod trefniadau'n gweithio'n effeithiol ar draws y rhanbarth.

Mae nifer y plant ar y gofrestr **amddiffyn plant** wedi cynyddu eleni – 102 (ar 31/3/22) o gymharu â 78 y flwyddyn flaenorol. Mae'r cyfnod diweddar wedi bod yn heriol iawn i deuluoedd oherwydd y pandemig. Mae teuluoedd wedi wynebu anawsterau mewn perthynas â materion diogelu o dan gyfyngiadau Covid sydd wedi golygu bod yn rhaid rhoi enwau rhai plant ar y gofrestr amddiffyn plant i sicrhau eu diogelwch o dan amgylchiadau anodd.





Rydym yn parhau i ddatblygu ein gwaith ataliol i leihau nifer y plant sy'n destun cynlluniau amddiffyn plant. Atal yw'r allwedd i ymarfer er mwyn sicrhau bod plant yn gallu aros gartref gyda ffrindiau neu deulu pan fo'n ddiogel iddynt wneud hynny. Teimlwyd effaith y pandemig yn ddifrifol yn y rhan hon o'r gwasanaeth. Roedd dileu gwasanaethau ataliol wyneb yn wyneb yn golygu bod teuluoedd yn mynd yn fwy ynysig ac o ganlyniad rydym wedi gweld mwy o blant yn dod i mewn i'r gwasanaeth statudol, rhai ohonynt fel achosion amddiffyn plant. Mae'n hanfodol bod y gwasanaethau bellach yn gweithredu'n llawn wyneb yn wyneb.

Mae’r timau gofal plant statudol yn cael eu cefnogi gan IFST, y Tîm Trothwy Gofal ac Ymyrraeth Teuluol gyda phecynnau cymorth dwys yn cael eu gweithredu mewn amrywiaeth o ffyrdd i gadw plant yn ddiogel. Mae effeithiolrwydd dulliau systemig ac arferion gweithio arwyddion diogelwch, gan gynnwys cyfathrebu effeithiol a chydweithio â theuluoedd yn cyfrannu at ganlyniadau da, er gwaethaf cymhlethdod cynyddol yr achosion. Rydym yn parhau i berfformio’n dda o ran **prydlondeb cynadleddau amddiffyn plant,** gyda 98.6% yn cael eu cynnal o fewn y cyfnodau amser statudol yn ystod 2021/22.

Mae nifer Cymru ymhlith y niferoedd uchaf o blant mewn gofal cyhoeddus yn y byd Gorllewinol. Mae lleihau hyn yn flaenoriaeth genedlaethol. Fodd bynnag, er ein bod

wedi gweld cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal i 167 (ar 31/3/22) o 148 ar yr un adeg y llynedd, mae Sir Gaerfyrddin yn parhau i fod yn gymesur â'r boblogaeth LAC isaf yng Nghymru. Mae'r cynnydd yn cael ei esbonio'n rhannol gan nifer o blant ifanc sy'n derbyn gofal sy'n cael eu symud i sefydlogrwydd yn gynnar oherwydd cam-drin ac esgeulustod gyda theuluoedd yn dioddef iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. Mae yna hefyd garfan o bobl ifanc yn eu harddegau sydd wedi cyflwyno anghenion sylweddol heriol a chymhleth ac sydd wedi bod angen gwasanaethau mwy arbenigol. Bydd datblygu uned breswyl arbenigol fewnol yn ddiweddarach eleni ar safle Rhyd-y-gors yn cael gwared ar ddibyniaeth lwyr ar sector annibynnol y bernir yn ôl adroddiadau cenedlaethol ei fod wedi methu â bodloni angen ac wedi defnyddio galw cenedlaethol i gynyddu elw y tu hwnt i'r hyn sy'n rhesymol. Bydd hyn yn ein galluogi i weithio gyda darparwyr allanol sy'n cynnig gofal o ansawdd gyda lefelau rhesymol o elw yn unig.




Rydym wedi parhau i weithio'n galed ar draws timau i gynnal **sefydlogrwydd lleoliadau** ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a chanolbwyntio ar gydweddu lleoliadau yn ofalus. Yn ystod 2021/22, symudodd 11 o blant (6.6%) o blant rhwng **3 neu fwy o leoliadau**. Roedd hyn oherwydd bod y plant a'r bobl ifanc wedi profi trawma emosiynol a chorfforol, ymddygiadau heriol ac anghenion cymhleth. Rydym yn perfformio'n dda yn barhaus o ran cadw plant yn yr un ysgol.

Mae systemau cadarn ar waith i atal plant rhag dechrau derbyn gofal gan gynnwys y panel Llety lle caiff ceisiadau am leoliadau eu hadolygu, ynghyd â chyfraniad y Tîm Cymorth Integredig i Deuluoedd (TCID) ac Ar Ffiniau Gofal, gan ganolbwyntio ar gyfarfodydd rhwydwaith teulu o safon dda a chyfarfodydd Porth Cyfreithiol a Chyn-achos rheolaidd. Mae ymyrraeth gynnar gan weithio mewn partneriaeth â theuluoedd trwy gynlluniau gofal a chymorth yn allweddol i gyflawni hyn. Fel y soniwyd o'r blaen, mae'r pandemig wedi cael effaith yn y maes hwn ac mae hyn wedi cael ei wneud yn

waeth gan y nifer sylweddol o swyddi gweigion gwaith cymdeithasol y mae'r awdurdod lleol yn gweithio i fynd i'r afael ag ef.

Mae'r tîm addysg plant sy'n derbyn gofal wedi parhau i ddarparu hyfforddiant wythnosol **ymarfer sy'n ystyriol o drawma** a hyfforddiant ymlyniad ar-lein ac mewn ysgolion yn Sir Gaerfyrddin drwy gydol 2021-22. Mae ysgolion wedi rhoi adborth cadarnhaol iawn gan ei fod wedi helpu staff i ddeall sut mae trawma yn effeithio ar blant a sut y gall ysgolion ddefnyddio strategaethau i helpu plant sydd wedi profi trawma yn eu bywydau i deimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac wedyn eu galluogi i sicrhau canlyniadau gwell. Rydym wedi perfformio'n gyson dda o ran cadw plant yn yr un ysgol lle bynnag y bo modd.

Mae'r dewis o **ofalwyr maeth** sydd ar gael yn rhywbeth yr ydym yn parhau i wneud cynnydd araf ond cyson arno. Rydym wedi recriwtio 12 o ofalwyr maeth newydd yn ystod 2021/22 sy'n welliant gan fod y pandemig wedi effeithio ar recriwtio o'r blaen gyda niferoedd isel o bobl â diddordeb mewn maethu. Er hynny, mae argaeledd lleoliadau wedi cael ei gyfyngu gan y niferoedd cynyddol o blant sy'n cael eu derbyn i ofal. Mae'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol bellach yn dwyn yr enw newydd Maethu Cymru a lansiwyd ar 15 Gorffennaf 2021 ac mae'n awr yn gyfrifoldeb statudol Mabwysiadu/Rheolaeth Cymru. Rydym wedi parhau i ddatblygu ein rhaglen farchnata ddigidol a defnydd o'n gwefan leol ochr yn ochr â'r Swyddog Marchnata Rhanbarthol i hyrwyddo gofal maeth yn lleol ac yn rhanbarthol gan fod angen llawer mwy o ofalwyr i ofalu am blant yn enwedig y rhai ag anghenion heriol a chymhleth.

Mae cydweithio rhanbarthol yn parhau i lywio nodau ac amcanion cyffredin megis datblygu cysoni ffioedd/lwfansau a gwasanaethau cymorth i gadw gofalwyr maeth ar draws y rhanbarth ac yn lleol. Mae gofalwyr maeth Sir Gaerfyrddin yn cael cymorth 24 awr ynghyd â hyfforddiant, mentora, a grwpiau cymorth i ddiwallu eu hanghenion dysgu a datblygu, yn ogystal ag adnoddau a chymorth ariannol. Mae'r Swyddog Marchnata a Recriwtio yng Ngwasanaeth Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn parhau i gysylltu â'r gwasanaeth maethu i rannu cyfleoedd ac adnoddau recriwtio.

Mae gofalwyr maeth yn nwydd gwerthfawr ac mae'n debygol y bydd yn rhaid adolygu'r cyfraddau i adlewyrchu codiadau costau byw os ydym am gadw'r rhai sydd gennym.

Mae'r galw am **Wasanaethau Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru** (MWAS) wedi parhau'n uchel. Er bod nifer y plant sydd â chynllun mabwysiadu a'r nifer sy'n cael eu mabwysiadu yn amrywio, mae'r galw am wasanaethau mabwysiadu wedi parhau i godi. Mae MWAS wedi gallu lleoli grwpiau o frodyr a chwiorydd eleni yn ogystal â phlant hŷn a phlant ag anghenion mwy cymhleth. Mae MWAS yn gweithredu Canllawiau Arfer Da Cymru a chynigir cyfarfod untro rhwng y rhiant biolegol a'r mabwysiadwr bron ym mhob achos. Mae mabwysiadwyr a rhieni biolegol yn gadarnhaol ynghylch manteision y cyfarfod hwn, er gwaethaf ei natur emosiynol.

Er mwyn galluogi mabwysiadwyr i wybod mwy am brofiad bywyd y plentyn a'r hyn a allai effeithio arno, mae MWAS yn cynnal diwrnodau 'Deall y Plentyn', ac mae'r seicolegydd yn cynorthwyo staff i lunio Llinell Amser Anogaeth Trawma ar gyfer pob plentyn. Mae hyn yn gymorth mawr i'r mabwysiadwyr i archwilio effaith eu profiadau cynnar ar y plentyn ac yn gymorth i deilwra'r pecyn cymorth sydd ar gael i'r teulu mabwysiadol. Mae'r galw am gymorth mabwysiadu yn parhau i fod yn uchel.

Mae cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer cymorth mabwysiadu wedi cynyddu gallu MWAS i gefnogi plant a theuluoedd mabwysiadol. Er ein bod yn cyrraedd mwy o deuluoedd ac yn darparu amrywiaeth o ymyriadau, mae'r galw yn parhau i dyfu. Fel gyda gwasanaethau eraill, mae cyfyngiadau Covid, absenoldeb/prinder staff a recriwtio wedi bod yn heriau ychwanegol i'r gwasanaethau Mabwysiadu a Maethu eleni.

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein gwasanaethau ar gyfer **plant anabl 0-25 oed** ers rhoi'r strwythur newydd ar waith yn ystod 2020/21 gan ddwyn ynghyd ein timau statudol ac anstatudol ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'r rhain wedi cael eu darparu ar y cyd rhwng gwasanaethau plant, gofal cymdeithasol oedolion, iechyd, ac addysg ac maent yn defnyddio dull systemig o ymarfer gan weithio gyda'r teulu cyfan, gan ganolbwyntio ar eu cryfderau a'u galluoedd er mwyn ateb eu hanghenion. Rydym wedi gweld cynnydd yn y galw am gymorth gan deuluoedd fel effaith y pandemig. Rydym yn dal i gwrdd â rhieni bob mis fel rhan o'n grŵp 'gweithio gyda'n gilydd' a gyda'u mewnbwn hwy fe wnaethom ddylunio a darparu ystod o weithgareddau dros yr haf a'r gaeaf. Rydym wedi parhau i ddatblygu'r gwasanaeth Cymorth Cynnar a bydd gan y rheolwr a benodwyd yn ddiweddar rôl bwysig i'w chwarae wrth reoli'r galw am y gwasanaeth er mwyn sicrhau bod teuluoedd yn cael y cymorth cywir ar yr amser cywir. Mae gwaith wedi cael ei wneud gyda phartneriaid i ddatblygu'r cynnig cymorth lleol ar y we i sicrhau bod gwybodaeth, cyngor ac arweiniad pwysig yn cael eu cynnwys ynghyd â chyfeirio at wasanaethau penodol.

Mae 'Hyfforddiant Sgiliau **Awtistiaeth**' ar gyfer ymarferwyr iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi parhau yn ystod y flwyddyn gyda thros 90+ wedi cael eu hyfforddi hyd yma. Mae ein Swyddog Datblygu ASD wedi bod yn rhan o weithgor ochr yn ochr â'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol (NAT) sydd wedi datblygu'r fframwaith. Mae sesiynau hyfforddi a gwybodaeth byrion, a modiwlau e-ddysgu hefyd wedi cael eu cynnal i helpu pobl i adnabod ac ymateb i awtistiaeth, yn ogystal â hyfforddiant parhaus a phenodol a ddarperir i'n partneriaid ac asiantaethau eraill, ac e-ddysgu pellach yn cael ei ddatblygu ar gyfer 2022 /23.

Mae'r paneli Anghenion Cymhleth ar gyfer Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion wedi cael eu dwyn ynghyd i greu panel rhanbarthol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a chyfarfu'r Panel Rhanbarthol cyntaf ym mis Gorffennaf 2021.

Nid yw gweithredu System Dyrannu Adnoddau (RAS) wedi ei symud ymlaen eto oherwydd blaenoriaethau gweithredu. Fodd bynnag, mae hwn yn dal i fod yn ddarn pwysig o waith a bydd y cynnydd hyd yma yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Plant Rhanbarthol i gael ei ddatblygu fel prosiect rhanbarthol gyda chefnogaeth Tîm Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru.

Mae'r rhaglen wella ar draws ein **gwasanaethau preswyl** i blant wedi parhau. Mae trefniadau gofal a chymorth wedi cael eu datblygu ar gyfer pobl ifanc anabl sy'n symud ymlaen o ofal preswyl/gofal maeth. Mae defnyddio staff o leoliad y plant i drosglwyddo a chynorthwyo'r cyfnod pontio yn helpu i leddfu symudiad mor fawr. Mae'r cyfnod pontio cyntaf wedi'i gwblhau ac roedd yn llwyddiannus i'r unigolyn dan sylw.

Mae'r cartrefi'n gwella'n dda o'r anawsterau a gafwyd yn ystod cyfyngiadau Covid. Mae staff yn gweithio'n fwy rhydd rhwng cartrefi, ac mae hyn yn dod yn ethos y gwasanaeth, sy'n ein galluogi i fod yn ymatebol wrth gyfeirio cymorth lle bo angen. Bu'r bobl ifanc eu hunain yn gysylltiedig â chynllunio, dylunio a phenodi staff gofal. Rydym wedi parhau i chwarae rhan weithredol yn y Bwrdd partneriaeth rhanbarthol ac arwain ar nifer o ffrydiau gwaith i drawsnewid gwasanaethau iechyd a gofal yn rhanbarth Gorllewin Cymru.

Ailddechreuodd y **Panel Rhianta Corfforaethol** gyfarfod yn rhithwir ym mis Tachwedd 2021 i fonitro a chraffu ar y gofal a'r cymorth y mae'r Awdurdod Lleol yn eu darparu ar gyfer y Plant sy'n Derbyn Gofal a'r Rhai sy'n Gadael Gofal. Drwy gydol y pandemig Covid mae'r holl blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal wedi parhau i gael eu cefnogi drwy'r timau gofal plant a'r gwasanaeth rhianta corfforaethol i sicrhau eu bod yn cael eu diogelu a'u bod yn cael gofal o ansawdd da sydd wedi'u galluogi i gyrraedd eu potensial.

Mae nifer o'r rhai sy'n gadael gofal yn astudio mewn colegau a phrifysgolion ac eraill yn cymryd rhan mewn hyfforddiant sy'n dipyn o gamp i'r bobl ifanc. At hynny, mae nifer o'r rhai sy'n Gadael Gofal yn graddio o brifysgolion, ac wedi hynny yn cymryd swyddi proffesiynol yn y gymuned.

Mae'r Gwasanaeth Rhianta Corfforaethol hefyd yn monitro canlyniadau Plant sy'n Derbyn Gofal yn rheolaidd drwy gyfarfodydd Archwilio a Gwerthuso MALAC (gofal Aml-Asiantaeth) a CYSUR sydd wedi parhau i gael eu cynnal yn rhithwir drwy 2021-22 i sicrhau bod y cyngor yn cyflawni ei rôl rhianta corfforaethol a chaiff cynnydd ei fonitro fel rhan o'r Strategaeth Rhianta Corfforaethol. Er bod y pandemig wedi creu heriau i wasanaethau plant drwy gydol 2021-22, mae'r canlyniadau sy'n cael eu cyflawni ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a'r Rhai sy'n Gadael Gofal yn Sir Gaerfyrddin wedi parhau i fod yn hynod gadarnhaol.

Mae creu mwy o **ddewisiadau llety** ar gyfer pobl ifanc agored i niwed wedi wynebu oedi sylweddol oherwydd Covid. Fodd bynnag, rydym yn gweithio'n agos gydag asiantaethau partner i weithredu cynllun trawsnewid llety 16-25 sydd â'r nod o ddigomisiynu nifer o ddarparwyr presennol yn ardal Tyisha yn Llanelli a rhoi mwy o gymorth i bobl ifanc yn eu lle a llety llai. Y nod yw cyflawni hyn erbyn Medi 2022. Yn dilyn gwaith rhwng yr Adran Tai, Gwasanaethau Comisiynu, Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid, a Gwasanaethau Plant, rydym yn rhagweld y bydd llety â chymorth newydd ar gael erbyn mis Medi 2022.

Bydd pobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref neu'r rhai sy'n ddigartref ar hyn o bryd yn cael y cyfle i gael cynnig mwy o lety â chymorth mewn prosiectau tai

llai yn eu cymunedau yn hytrach na llety â chymorth mwy a oedd wedi'i leoli'n bennaf yn Llanelli. Bydd mwy o gymorth ar gael hefyd i sicrhau eu bod yn cael eu cynorthwyo i gyflawni canlyniadau gwell.

At hynny, gwnaeth y gwasanaethau plant gais llwyddiannus am gyllid o’r Grant Cymorth Tai i ddatblygu gwasanaeth Llety â Chymorth mewnol i gynyddu capasiti ar gyfer lleoliadau llety â chymorth i bobl ifanc 16-25 oed sy’n agored i niwed. Ei nod yw darparu 24 o leoliadau ar gyfer ein pobl ifanc, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion mwy cymhleth. Mae staff yn cael eu recriwtio ar hyn o bryd i redeg y gwasanaeth a'r gobaith yw y bydd yn dechrau darparu lleoliadau i bobl ifanc o fewn yr ychydig fisoedd nesaf.

Mae strwythur newydd yn ei le ar gyfer plant sy'n cael **addysg ddewisol yn y cartref** (EHE). Mae nifer y teuluoedd sy’n dewis addysgu eu plant gartref wedi cynyddu ers 2020 ac mae’n parhau i gynyddu. Ar hyn o bryd gwyddys bod 565 o blant yn cael addysg ddewisol yn y cartref (541 o oedran ysgol statudol a 24 yn oed cyn ysgol). Y rheswm mwyaf cyffredin dros ddewis addysgu yn y cartref oedd y pandemig Covid. Mae’n faes polisi lle mae Llywodraeth Cymru wedi gwrthod argymhellion dro ar ôl tro i gryfhau canllawiau cenedlaethol er gwaethaf y ffaith fod y Comisiynydd Plant, ADSSC (Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol), ADEW (Cyfarwyddwyr Addysg) a’r bwrdd diogelu cenedlaethol i gyd yn argymell gweithredu gan y llywodraeth. Mae sefyllfa’r canllawiau a addawyd yn dal i gael ei ohirio ers blynyddoedd er gwaethaf nifer o ddrafftiau ac ymgynghoriadau. Mae hwn yn faes a nodwyd fel risg gan Fwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Mae lefel yr ymgysylltiad â theuluoedd EHE yn parhau i gynyddu gyda 90% o blant wedi cael ymweliad o fewn y 12 mis diwethaf. Mae cyllid Llywodraeth Cymru wedi ein galluogi i gryfhau’r tîm dros dro, ac mae cyllid grant hefyd wedi cyfrannu at nifer o gynlluniau a mentrau ar gyfer teuluoedd EHE ac mae’r adborth wedi bod yn gadarnhaol. Mae un o’n Hymgynghorwyr Addysg Gartref wedi derbyn gwobr KIT aur yn ddiweddar gan yr elusen addysg gartref “Education Otherwise”. Mae'r wobr hon yn cydnabod swyddogion sydd wedi cyflawni safonau uchel yn eu rôl, a enwebwyd gan deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref.

Mae’r **Tîm o Amgylch y Teulu** (TAF) yn parhau i ail-lunio eu gwasanaeth i gwrdd ag anghenion y dyfodol. Mae tîm TAF-mewn-Ysgolion wedi'i gyfuno â’r tîm TAF Canolog fel rhan o'r gwaith o ail-lunio TAF i fod yn sefydliad mwy effeithlon sy'n seiliedig ar le ac yn canolbwyntio ar y gymuned. Mae TAF yn parhau i ddatblygu cysylltiadau â’r trydydd sector, ac yn gweithio’n agos gydag ysgolion, y tîm Diogelu, Presenoldeb a Chymorth Cynnar fel rhan o’r agenda cynorthwyo ymddygiad. Mae'r tîm wedi gweithredu ar gapasiti llawer llai (llai na 50%) i gwrdd ag anghenion teuluoedd yn bennaf trwy ddulliau digidol. Mae’r grŵp cymorth cymheiriaid cyntaf i rieni yn ei gamau datblygu cynnar wrth symud ymlaen i 2022/23.

Mae'r **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd** (GGD) wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf a chyngor i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol drwy amrywiaeth o ddulliau. Yn ystod 2021/22 bu 1866 o ymholiadau i wefan y GGD. Mae sianeli cyfryngau cymdeithasol GGD yn parhau i dyfu ac maent yn ffordd wych o gyfathrebu.

Yn ogystal â 37,363 o ymweliadau â'r wefan, cyrhaeddodd ymgysylltiad drwy Facebook 31,247 a Twitter 33.4K. Mae'r Gronfa Datblygu Plant (CDP) yn darparu cymorth ychwanegol i blant a theuluoedd sydd â'r angen a'r anfantais fwyaf, yn enwedig oherwydd Covid, i sicrhau bod anghenion yn cael eu canfod yn fuan cyn iddynt waethygu. Yn ystod y flwyddyn, cafodd 178 o deuluoedd fudd o'r CDF gyda 187 o blant yn cael eu cefnogi.

Daliwyd i hyrwyddo'r **Cynnig Gofal Plant** drwy hysbysebu egnïol ac amlgyfrwng. Yn 2021/22 roedd nifer yr ymholiadau i'r dudalen we yn 463, gyda 12,168 o drawiadau ar y dudalen. Ar gyfartaledd, manteisiodd 500-600 o blant ar y cynnig gofal plant bob mis yn ystod 2021/22. Bwriedir cyflwyno'r gwasanaeth digidol cenedlaethol newydd ar draws y wlad ym mis Ionawr 2023. Mae Sir Gaerfyrddin yn cymryd rhan mewn cynllun peilot bach gyda Cheredigion fydd yn dechrau ym mis Medi 2022.

Mae holl brosiectau **Teuluoedd yn Gyntaf** wedi bod yn darparu ystod eang o gymorth i deuluoedd/pobl ifanc mewn amrywiaeth o leoliadau gan gynnwys ysgolion, swyddfeydd/y gymuned a chartrefi teuluoedd yn ogystal â pharhau i ddarparu cymorth rhithwir. Mae'r prosiectau'n dal i wynebu heriau gan gynnwys salwch staff sy'n gysylltiedig â Covid, teuluoedd sydd wedi dal Covid, gweithio gyda niferoedd cyfyngedig o grwpiau ac mae angen apwyntiadau wedi eu trefnu ymlaen llaw o hyd. Wrth i gyfyngiadau leddfu, mae'r prosiectau'n gweithio gyda mwy o unigolion ac yn adrodd am gynnydd mewn atgyfeiriadau. Mae Prosiectau Teuluoedd yn Gyntaf wedi elwa ar grantiau tymor byr ychwanegol gan LIC sydd wedi helpu i gwrdd â'r galw am gymorth ac wedi galluogi cymorth gan asiantaethau eraill:

**Yn ystod 2021-22:**

Cefnogwyd **6792** o unigolion gan y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, gyda **4876** (**72%**) ohonynt yn unigolion newydd.

Cefnogwyd **3569** o deuluoedd gan y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, yr oedd **2683** (**75%**) ohonynt yn deuluoedd newydd (o ganlyniad i weithio gyda phobl ar sail un-i-un).

Caewyd **591** o JAFF asiantaeth sengl gyda symudiad ymlaen o **551** (**93%**) ar yr offeryn pellter a deithiwyd.

Trosglwyddwyd **16** achos i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, a chafodd **1** o'r achosion hynny ei symud i fyny i Geredigion a chafodd **86** o achosion eu camu i lawr o'r Gwasanaethau Cymdeithasol i'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf.

Yn y rhan fwyaf o achosion mae cymorth wedi'i ddarparu ar sail un-i-un oherwydd cyfyngiadau Covid. Wrth i brosiectau gynyddu eu cefnogaeth wyneb yn wyneb, bu cynnydd yn nifer y teuluoedd sy'n camu i lawr o'r Gwasanaethau Plant i wasanaethau ataliol, fydd yn awr yn gymorth i leddfu rhywfaint o bwysau ar wasanaethau statudol.

Mae gwaith cydweithredol wedi parhau o fewn **Dechrau'n Deg (DD)** yn darparu dull cyfannol o gyfathrebu ac ymgysylltu â theuluoedd, gan rannu syniadau ac adnoddau. Bu ap Dechrau'n Deg yn rhan annatod o ymgysylltu â theuluoedd, rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt a darparu gwybodaeth hanfodol. Rydym wedi defnyddio dyfeisiadau data symudol i helpu teuluoedd na allant lawrlwytho'r ap. Cyfarfu tîm Dechrau'n Deg â LIC i werthuso llwyddiant yr ap, yn enwedig yn ystod Covid, gyda'r nod o'i gyflwyno i Awdurdodau Lleol eraill. Mae heriau wedi parhau oherwydd cyfyngiadau parhaus Covid a diffyg mynediad i leoliadau addas ar gyfer cyflwyno wyneb yn wyneb. Mae materion staffio oherwydd Covid a swyddi gweigion hefyd wedi ei gwneud yn anodd rhedeg gwasanaethau llawn. Mae gwasanaethau Iaith a Chwarae (LAP) wedi gweithio'n agos gyda'r athrawes ymgynghorol ac mae'r seicolegydd addysg wedi ei galluogi i gynnig cymorth pwrpasol i leoliadau gofal plant unigol i gefnogi datblygiad sgiliau cyfathrebu plant.

# Darpariaeth Gofal Uniongyrchol/Gofal a Gomisiynwyd

## Cartrefi Gofal

Mae Cartrefi Gofal wedi bod ymhlith y rhai sydd wedi cael eu taro galetaf gan Covid. Diolch byth, mae'r broses o gyflwyno'r rhaglen frechu a'r nifer uchel sy'n manteisio arni ymhlith preswylwyr a staff iechyd a gofal cymdeithasol wedi golygu yn y mwyafrif o achosion nad yw preswylwyr na staff bellach yn mynd yn ddifrifol wael gyda Covid. Fodd bynnag, mae'n dal i fod yn rhywbeth y mae angen inni ei reoli'n ofalus ac mae Canllawiau Llywodraeth Cymru ac Iechyd y Cyhoedd yn dal i olygu ein bod yn gweld patrymau parhaus o orfod cau cartrefi gofal i dderbyniadau newydd am gyfnodau sylweddol o amser.

Gan fod y dystiolaeth bellach yn dangos bod effaith y rhaglen frechu wedi lleihau'r risg i breswylwyr cartrefi gofal yn sylweddol, rydym yn obeithiol y byddwn yn dechrau gweld y canllawiau'n newid ac yn symud i ffwrdd o'r angen i ynysu preswylwyr newydd wrth gael eu derbyn a chau cartrefi gofal i dderbyniadau newydd pan fo nifer o achosion. Yn amlwg, mae angen rheoli pob achos o Covid ar sail asesiad risg, ond rydym yn obeithiol y bydd mwy o ddisgresiwn yn cael ei roi i Unigolion Cyfrifol i wneud penderfyniadau ar sail risg ynglŷn â'r ffordd i redeg eu cartrefi.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae 61 o gartrefi gofal (ar draws pobl hŷn, anabledd dysgu ac iechyd meddwl) wedi bod dan waharddiad (statws digwyddiad), gyda nifer o gartrefi dan waharddiad amryw o weithiau. Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf dim ond mewn un cartref yr ydym wedi gweld haint Covid yn arwain at lefelau sylweddol o salwch difrifol a marwolaeth preswylwyr.

Mae'r rhan fwyaf o'r gofal a'r cymorth yn Sir Gaerfyrddin yn cael ei ddarparu gan y sector a gomisiynir yn annibynnol. Mae'r Tîm Comisiynu yn Sir Gaerfyrddin wedi parhau i chwarae rhan sylweddol yn cefnogi'r gwasanaethau hyn yn ystod y pandemig. Mae'r ystod o gefnogaeth wedi cynnwys:


- Cydlynu'r cyfathrebiadau niferus ac arweiniad.
- Cydlynu a chyflenwi PPE.
- Cyfathrebu rhagweithiol gyda darparwyr.
- Cefnogaeth ar gyfer asesiadau risg yn ymwneud â derbyniadau/dychweliadau o'r ysbyty.
- Cychwyn trefniadau perfformiad darparwyr i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon am Covid neu bryderon eraill mewn perthynas â darparu gwasanaeth.
- Cefnogaeth gyda phrofion a rheoli heintiau.
- Cefnogaeth ariannol.
- Cydlynu cefnogaeth a chyswllt gyda chartrefi gofal sy'n profi achosion.

Mae ymweliadau â chartrefi gofal gan deuluoedd a ffrindiau wedi parhau i fod yn her, ond bellach mae gan bob cartref gofal systemau da ar waith i sicrhau bod preswylwyr yn gallu cael ymwelwyr a chynnal cyswllt teuluol er mwyn eu lles.

Mae'r sector yn parhau i wynebu heriau o ran llenwi gwelyau gwag ac ar adeg ysgrifennu'r adroddiad roedd gennym 12% o'r gwelyau yn wag yn Sir Gaerfyrddin. Mae adroddiad sefydlogrwydd marchnad rhanbarthol wedi cael ei ddatblygu'n ddiweddar ac mae'n ein helpu i ddeall y risgiau sy'n gysylltiedig â'r farchnad yn well ac i ystyried pa gapasiti sydd arnom ei angen yn y dyfodol a sut yr ydym yn gweithio gyda darparwyr i ail-lunio eu darpariaeth i gwrdd ag anghenion y boblogaeth yn well. Mae'r anhawster a gaiff y sector cyfan i recriwtio yn effeithio ar y capasiti a'r gallu i dderbyn lleoliadau, er bod lefelau recriwtio wedi gwella'n sylweddol yn yr ychydig wythnosau diwethaf yn ein lleoliadau gofal preswyl mewnol.

Mae'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth hefyd wedi ei ddiweddaru'n ddiweddar, sy'n mynegi'n glir y pwysau demograffig sy'n gysylltiedig â chynnydd yn y boblogaeth o bobl dros 85 oed ac achosion uwch o ddementia. Bydd asesiad 'digonolrwydd' yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ynghyd ag Asesiad Sefydlogrwydd y Farchnad o wasanaethau rheoleiddiedig yn rhoi sylfaen gref ar gyfer cynllunio strategol ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Mae'n deg dweud, fodd bynnag, fod effaith Covid wedi arwain at unigolion a theuluoedd yn gwneud penderfyniadau tra gwahanol ynglŷn â'u gofal hirdymor. Mae pobl yn dewis aros gartref yn llawer hirach nag y byddent wedi ei wneud efallai cyn y pandemig oherwydd bod yr effaith a gafodd Covid ar gartrefi gofal wedi cael cymaint o gyhoeddusrwydd. Mae nifer y lleoliadau a gomisiynir wedi gostwng yn sylweddol fel yn y graff isod. Mae hyn yn rhannol oherwydd amharodrwydd cynyddol pobl i wneud y dewis hwn ar ôl Covid, yn rhannol hefyd argaeledd gwelyau a dibyniaeth gynyddol ar becynnau cymunedol i gwrdd ag angen.




Cafwyd cymorth ariannol digynsail i'r sector gofal gyda swyddi gwag yn cael eu talu drwy lawer o'r pandemig hyd yn oed pan leihaodd costau wrth i'r niferoedd ostwng. Mae'r gostyngiad yn y gwelyau cartrefi gofal a gomisiynir bellach yn debygol o gael effaith ariannol ar gartrefi gofal er nad oes tystiolaeth ar hyn o bryd fod amheuaeth ynghylch eu hyfywedd. Mae angen i lawer ddatblygu eu model busnes i gymryd cyfran uwch o'r henoed bregus eu meddwl (EMI) a sicrhau bod eu telerau ac amodau staffio yn cyd-fynd â chyfradd y farchnad.

Mae rheoli'r effaith feddyliol a chorfforol ar staff mewn lleoliadau gofal yn parhau i fod yn un o'r heriau mwyaf, sy'n cael ei dwysáu gan y problemau recriwtio a chadw parhaus sy'n gysylltiedig â'r gweithlu. Rydym yn parhau i ddarparu cymorth i gartrefi allanol lle y gallwn a sicrhau ein bod yn cefnogi llesiant ein staff ein hunain. Rydym yn cydnabod bod staff wedi blino ar ôl dwy flynedd mor anodd, ac rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i'w cynorthwyo.

Rydym wedi darparu cynnydd canrannol sylweddol i ffioedd cartrefi preswyl rhwng 10.55% a 11.78% i'w galluogi i dalu'r cyflog byw gwirioneddol i staff a chwrdd â phwysau chwyddiannol eraill.

# Gofal Cartref

Rydym wedi mynegi'n glir beth mae'r heriau wedi ei olygu o ran y penderfyniadau anodd yr ydym yn eu gwneud ynghylch gofal pobl, ac ar adeg ysgrifennu'r adroddiad roeddem yn dal i weld tuedd ar i lawr yn yr oriau gofal a gomisiynwyd, er ei fod wedi dechrau gwastatáu mewn mannau eraill. Mae'r gostyngiad yn bennaf oherwydd prinder gweithwyr systemig ar draws y sir.

Er gwaethaf yr heriau, rydym ymhlith yr awdurdodau mwyaf blaengar ac yn benderfynol o fynd i'r afael â'r broblem genedlaethol hon - mae ambell i eginyn gwyrdd ar y gorwel. Ddiwedd y llynedd, aethom allan i dendr ar gyfer ein Fframwaith Gofal Cartref newydd ac rydym wedi llwyddo i benodi darparwyr ar gyfer pob “lot” o dan y Fframwaith. Lansiwyd y Fframwaith yn swyddogol gennym ym mis Mawrth 2022 a byddwn yn symud yn raddol i’r trefniadau comisiynu newydd dros yr ychydig fisoedd nesaf. Bydd y fframwaith newydd yn ein galluogi i gwrdd â rhai o'r heriau hirsefydlog megis tegwch darpariaeth yn rhai o ardaloedd mwy gwledig y sir. Bydd hefyd yn ein galluogi i ddatblygu ein Gwasanaeth Asesu Cymunedol gyda’n darparwr mewnol ac allanol, fydd yn caniatáu i gymaint o unigolion â phosibl gael cyfnod o asesiad cyn i benderfyniadau gofal hirdymor gael eu gwneud gyda’r bwriad o gynyddu annibyniaeth a chynorthwyo pobl i aros yn ddiogel ac yn iach gartref gyhyd ag y bo modd. Dylai’r holl oriau a gomisiynir bellach gael eu talu ar y cyflog byw gwirioneddol neu uwch, a derbyn cyfradd milltiredd sy’n debyg i’r awdurdod lleol (45c).

Ar adeg ysgrifennu’r adroddiad, rydym newydd dderbyn yr adroddiad ynghylch arolygiad AGC o’n gofal cartref mewnol. Mae’n bleser gennyf adrodd bod yr adborth wedi bod yn hynod gadarnhaol. Mae derbyn hyn yn ystod pandemig byd-eang ac er gwaethaf heriau gweithlu sylweddol yn eithaf rhyfeddol.

Nid yw’r adroddiad wedi’i gyhoeddi eto, ond mae’r canlynol yn grynodeb o’r adborth a dderbyniwyd:

> “Mae pobl a'u perthnasau yn canmol y gofal a'r cymorth a gânt. Mae cofnodion gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn adlewyrchu anghenion unigol pobl. Mae'r staff gofal wedi cael eu hyfforddi'n dda, mae ganddynt wybodaeth dda am y bobl y maent yn gofalu amdanynt ac maent yn frwdfrydig ynghylch gweithio yn y gwasanaeth. Mae rheolwyr ymroddedig a gwybodus, sy'n cael eu cefnogi'n dda gan yr Unigolyn Cyfrifol (UC), yn arwain y gwasanaeth. Mae'r rheolwyr yn hawdd siarad â hwy ac yn uchel eu parch gan bawb sy'n gysylltiedig. Mae gan yr Unigolyn Cyfrifol drosolwg da ar y gwasanaeth ac mae systemau cadarn ar waith i gefnogi hyn. Mae gan y tîm arwain berthynas waith dda a gweledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth.”

Mae mesurau i recriwtio a chadw gweithwyr gofal cartref wedi dod yn un o'n meysydd gwaith craidd. Datblygwyd ymgyrch farchnata gennym i geisio denu pobl i fod eisiau dod i weithio yn y sector, rydym wedi darparu cymhellion ariannol i annog ein staff ein hunain i weithio sifftiau ychwanegol ac rydym wedi gweithio gyda’r sector annibynnol i geisio gwella cyfraddau cyflog ac ystyried mentrau recriwtio a chadw. O ganlyniad, mae cyfran y gofal a ddarperir fel canran o’r cyfanswm yn parhau i dyfu ac mae bellach yn gyson ar 38% o’r farchnad o gymharu â’r lefel isaf o 22% chwe blynedd yn ôl. Mae hyn yn unol â'r strategaeth y cytunwyd arni i ail-gydbwyso gofal a sicrhau bod y farchnad ofal yn Sir Gaerfyrddin yn gytbwys. Bwriedir cwblhau

adolygiad pellach pe baem yn cyrraedd 50% o gyfran y farchnad. Gan adlewyrchu cymhlethdod cynyddol y rôl, mae'r tâl ar gyfer ein timau mewnol bellach hyd at £25,363 y flwyddyn neu ychydig dros £13 yr awr. Er gwaethaf y gyfradd hon sydd ar flaen y farchnad, mae recriwtio yn parhau i fod yn hynod o heriol.

Rwy'n arbennig o falch o'r gweithlu mewnol hwn sydd wedi dangos gwytnwch ac ymrwymiad rhyfeddol ac wedi parhau i ddarparu gofal i'n rhai mwyaf agored i niwed yn ystod y cyfnod mwyaf anodd hwn. Mae rheoli absenoldebau staff, boed hynny'n gysylltiedig â Covid, salwch cyffredinol neu swyddi gwag wedi bod yn hynod o anodd ac rydym wedi parhau i ddibynnu ar ewyllys da a haelioni ein staff i lenwi bylchau pan fo angen. Er nad yw ein gwaith recriwtio a chadw ar hyn o bryd yn caniatáu inni gynyddu niferoedd ond ar gyfradd araf iawn, rwy'n gobeithio yn 2022/23 y byddwn unwaith eto mewn sefyllfa i dyfu'r gweithlu a chyrraedd sefyllfa fwy cynaliadwy lle gallwn gwrdd ag anghenion yn well.

I gyfrannu at y gwelliant hwn, rydym yn gobeithio creu gwasanaeth ailalluogi ar y cyd â'r bwrdd iechyd gan roi telerau ac amodau tebyg, recriwtio a lleoli ar y cyd. Os bydd hyn yn llwyddiannus, bydd yn symud oddi wrth y tensiwn cyffredinol o fewn y system lle mae Cynorthwywyr Gofal Iechyd y GIG yn cael eu talu'n sylweddol fwy na'r rhai sy'n cyfateb iddynt yn yr awdurdodau lleol.

Cynhaliwyd cyfarfodydd cydymffurfio rheolaidd ag AGC ar gyfer yr holl wasanaethau cofrestredig yn ystod 2021/22 ac maent wedi bod yn gadarnhaol iawn. Un amcan allweddol wrth symud ymlaen yw tyfu'r gwasanaeth cartref mewnol, fydd yn cynnwys cynorthwyo'r rhai ag anghenion mwy cymhleth.

# Cwynion a Chanmoliaeth

## Oedolion


Cwynion a Chanmoliaeth yn y Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn 2021/22. Mae'n rhoi darlun cadarnhaol o berfformiad yr adran yng nghyd-destun 4,190 o unigolion a dderbyniodd wasanaeth gofal cymdeithasol gan Gyngor Sir Caerfyrddin yn ystod y cyfnod hwn. Mae hyn yn golygu mai dim ond 1% o unigolion a wnaeth gŵyn ffurfiol am y gwasanaeth a dderbyniwyd ganddynt.

**Cwynion**

Cofnodwyd cyfanswm o 46 o gwynion naill ai ar Gam 1 neu 2 mewn perthynas â Gofal Cymdeithasol i Oedolion.

**Crynodeb**

- Ymchwiliwyd i 37 o gwynion ynghylch Gofal Cymdeithasol i Oedolion ar gam datrys lleol sef Cam 1.
- Cofnodwyd 9 dan Ymchwiliad Ffurfiol Cam 2
- Ymdriniwyd â 41 o gwynion pellach gan yr adran ac fe'u cofnodwyd fel rhai wedi eu Hailgyfeirio, Dim Camau Pellach, yn disgwyl camau diogelu neu arall.




**Cwynion i'r Ombwdsmon**

Cafodd wyth o gwynion i gyd eu huwchgyfeirio at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn dilyn cwblhau Cam 2 yr ymchwiliad. O'r wyth cwyn, cafodd pump eu gwrthod ac nid ymchwiliwyd ymhellach iddynt. Fodd bynnag, mae dwy gŵyn yn cael eu harchwilio gan yr Ombwdsmon ar hyn o bryd a bu rhaid i'r cyngor dalu iawndal i un achwynydd oedd yn ymwneud ag oedi cyn ymdrin yn effeithiol â chwyn gysylltiedig â darparwr allanol. Mae newidiadau wedi cael eu gwneud i atal hyn rhag digwydd eto.

**Canmoliaeth**

Derbyniwyd 172 neges o ganmoliaeth i Ofal Cymdeithasol i Oedolion yn ystod 2021/22.

*"We are delighted & so thankful to XX & everyone who's involved in guiding us through this transition for Mam. Everyone has made the experience so stress free especially at a time when it can be very emotional. Could I please thank each & everyone for all the help, support, patience & guidance. It has been so painless with all of your help."*

*"Would like to send a huge thank you for your kindness as my mums social worker. From our first Teams meeting with you, my sister and mam, you acted in mams best intertest and quite frankly saw what a character she was. As a family we could not have wished for better care and support from your care team. You came in on a days annual leave and certainly went above and beyond to help mam be comfortable in the last few weeks.* Diolch yn fawr
L & G"

“Llawer iawn o ddiolch i chi am bob Cymorth a chyngor a gawsom fel teulu ganddoch yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae’n dda gwybod fod rhywun fel chi ar gael i roi cefnogaeth eto os bydd angen. Cofion cynnes iawn.

## Plant

Mewn perthynas â gwasanaethau Plant, derbyniwyd un ar bymtheg (16) o gwynion Cam 1.

Ni chafodd deuddeg (12) o gwynion Cam 1 eu cadarnhau.

Ymchwiliwyd i bedair (4) cwyn Cam 2 gan Swyddog Ymchwilio Annibynnol (IIO).

Ni chafodd tair (3) o ymchwiliadau Cam 2 eu cadarnhau.

O’r pedair cwyn Cam 1 a gadarnhawyd – roedd y rhain yn canolbwyntio ar;

Sut yr oedd gofalwr maeth wedi cyfathrebu mewn cyfarfod ynghylch plentyn y rhieni (yr achwynwyr). Yn ystod dadl gyfreithiol gymhleth ynghylch cyswllt rhieni â’u plentyn honnai un rhiant (yr achwynwr) fod un yn cael ei drin yn fwy ffafriol na’r llall o ran cyswllt o’r fath.

Ymddygiad gweithwyr cymdeithasol oedd yn ymweld â’r cartref i ddibenion asesu / ymchwilio, dim yn gwisgo masgiau wyneb a dim yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r achwynwr am yr asesiad a’r ymchwiliadau a bod yr achwynydd yn teimlo cywilydd ynghylch yr ymweliad oherwydd bod y gweithwyr yn gwisgo cortynnau gwddf oedd yn weladwy i gymdogion gan effeithio ymhellach ar iechyd meddwl yr achwynydd.

Mynegwyd pryderon gan achwynwyr eu bod, yn ystod cyswllt dan oruchwyliaeth, wedi clywed y staff cyswllt yn y lleoliad yn trafod achosion eraill, oedd yn ei phoeni wrth ddyfalu a fyddai eu hachos hwy yn cael ei drafod ag eraill. Canfuwyd na ddatgelwyd unrhyw enwau na manylion adnabod, ond bod y trafodaethau wedi digwydd.

Derbyniodd yr holl achwynwyr ymddiheuriadau ac eglurwyd beth oedd wedi digwydd, gan gynnwys sicrwydd o gydymffurfio â pholisi/arfer Covid yr adran bryd hynny, a chafodd y staff perthnasol eu hatgoffa am gyfrinachedd.

Cafodd un (1) gŵyn Cam 2 Statudol yr ymchwiliwyd iddi yn annibynnol ei chadarnhau. Roedd hon yn ymwneud ag oedolyn a oedd yn destun cysylltiad gan y gwasanaethau cymdeithasol pan oedd yn blentyn ar ddechrau’r 1980au. Credai y dylai fod wedi cael ei dynnu allan o fywyd mewn cartref camdriniol (tyst i drais domestig).

Daeth yr IIO i'r casgliad bod cyfleoedd posibl wedi cael eu colli gan y gweithwyr proffesiynol dan sylw ar y pryd, ac wedi hynny cadarnhawyd y gŵyn yn rhannol a dyfarnwyd iawndal.

## Canmoliaeth

**Canmoliaeth gan Farnwr yr Uchel Lys a'r Gwarcheidwad i Weithwyr Cymdeithasol gofal plant gyda golwg ar achos cymhleth tu hwnt. Anaml y rhoddir y math hwn o gydnabyddiaeth pan ddylid ei roi ond sylwyd arno yn yr achos hwn.**

Judge x expressed gratitude to the Social Work team, for its sensitive, flexible and common-sense approach to both the case and the family, and for the work and support which is being provided in the future. The LA was also complimented on the quality of both its social work and legal documentation. The Children's Guardian made particular note of the Department's work with this family in her Final Analysis, stating that she wished her thanks to the social work team to be put on formal record, in light of the fact that they had *"worked tirelessly to support the family at what has been a difficult time".* Mother has also formally acknowledged her gratitude to the LA for its approach with her.

**Adborth y Tîm Cyfreithiol, Gwarcheidwad y Plant, a'r Bargyfreithiwr i'r Gweithiwr Cymdeithasol gofal plant**

Excellent work. It was a complex case and you managed this exceptionally well. The Guardian has fed back how impressed she was with your conduct of the case, your relationship with the three children as well as your final evidence, your detailed care plans and your oral evidence in court last week. The judge also referred to your comprehensive assessments of both parents in his judgment. You gave evidence clearly and understood what was best for the children... and gone above and beyond to provide the parent opportunities to engage.

It takes a very special person
To do the job that you both do
We don't know where we would be now
Without the help from you

You stood by us as we struggled
You were there through the good and bad
I think I speak for all your clients
You were the guardian angels when we were sad

You guided us through our bad days
You taught us so much too
If ever someone needs help like this
I'll be putting them onto you

Sometimes you may feel unappreciated
Some people may treat you bad
But believe us when we tell you
You are the best friends that we've had

Without you both I don't know what we'd have done
Or where we would be now
When we were down and in despair
You showed us the Where, When, and Who

We'll never forget what you've both done for us
And we will miss you in our own way
We'll always remember everything you've done
You're the reason we are who we are today

Thank you so much for all you've done for us
Throughout all our troubles and strife
It's guardian angels like you both
That deserve the best in life

Never put yourself or what you do down
We've gained two very special friends
I hope all that happiness you deserve
Will be there when this journey ends

Thank you both from the bottom of our hearts

***Cerdd a ysgrifennwyd gan berson ifanc i'w Gweithwyr Cymdeithasol gofal plant i gydnabod y gwahaniaeth yr oeddent wedi ei wneud i'w bywyd.***

## Fframwaith Perfformiad

Gyda chyflwyniad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru, cynhaliodd yr Awdurdod Lleol arolwg o'r bobl sy'n defnyddio eu Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol drwy holiadur blynyddol. Cynhaliwyd yr arolwg rhwng Mawrth 2022 a Mai 2022 a chafwyd cyfradd ymateb o **24%**.

Roedd canfyddiadau'r arolwg yn gadarnhaol ac yn gyson â blynyddoedd blaenorol.

- Teimlai 90% o'r ymatebwyr eu bod yn byw mewn cartref sy'n cefnogi eu llesiant orau.
- Atebodd 57% ‘Ydw’ eu bod yn gallu gwneud y pethau oedd yn bwysig iddynt.
- Teimlai 55% eu bod yn rhan o gymuned
- Roedd 88% yn hapus gyda'r gefnogaeth yr oeddent yn ei chael gan deulu, ffrindiau a chymdogion.
- Dywedodd 83% eu bod yn teimlo'n ddiogel rhag unrhyw fath o gamdriniaeth, niwed corfforol neu rhag cwympo y tu mewn neu'r tu allan i'w cartref.
- Gwyddai 82% o’r ymatebwyr â phwy i gysylltu am y gofal a’r cymorth.
- Dywedodd 75% o bobl eu bod yn meddwl eu bod wedi cael y wybodaeth neu'r cyngor cywir pan oedd arnynt ei angen.
- Roedd 77% o ymatebwyr wedi cael rhan mewn penderfyniadau.
- Roedd 91% yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith.

**Gall adroddiad llawn fod ar gael gan y Tîm Perfformiad, Dadansoddi a Systemau**

# Y Gweithlu

Mae cael y bobl orau oll yn gweithio i'r Awdurdod yn golygu bod modd darparu'r gofal cymdeithasol gorau oll i'n pobl yn y gymuned. Mae’n bwysig bod staff yn teimlo’n falch o’r gofal cymdeithasol y maent yn ei ddarparu ac yn teimlo eu bod yn gysylltiedig â’r cymunedau lleol a’r timau y maent yn gweithio ynddynt.

Ni allaf bwysleisio digon faint mae ein staff wedi parhau i ymateb i’r her a mynd uwchlaw a thu hwnt i’r hyn a ddisgwylir ganddynt. Mae’r pwysau’n parhau i fod yn aruthrol, a heb eu hyblygrwydd a’u gwydnwch ni fyddai gennym wasanaeth i’w ddarparu. Rwy’n cydnabod mai tasg amhosibl ar adegau yw bod yn weithiwr gofal cymdeithasol, yn weithiwr cymdeithasol, yn therapydd galwedigaethol neu’n staff sy’n cefnogi ein swyddogaethau swyddfa gefn yng nghyd-destun yr heriau sy’n ein hwynebu’n awr. Fodd bynnag, er gwaethaf popeth, maent yn parhau i ddangos y lefelau uchaf o dosturi ac empathi tuag at y bobl y maent yn gweithio gyda hwy ac yn gwneud popeth posibl i'w helpu i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl.

Fodd bynnag, mae’r sefyllfa ar draws y wlad yn syfrdanol, gyda’r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn gweld cyflogau yn y sector cyhoeddus yn gostwng 4.5% mewn termau real y llynedd. Mae hyn yn effeithio ar ein gallu i recriwtio a chadw'r staff y mae arnom eu hangen; gyda thros 1.3 miliwn o swyddi gwag ledled y DU mae'n debygol y bydd recriwtio yn parhau i fod yn her am beth amser.

Er mwyn mynd i’r afael â’r her hon bydd y gwaith yr ydym yn ei wneud ar recriwtio a chadw yn hollbwysig i dyfu a datblygu ein gweithlu gan roi rhesymau gwirioneddol iddynt aros a datblygu eu gyrfaoedd. I’r diben hwn, rwy’n cadeirio gweithgor recriwtio a chadw gofal cymdeithasol sydd wedi datblygu ein cynllun cyffredinol ac sy’n sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni. Mae’r mentrau a ddatblygwyd yn cynnwys:

- Recriwtio tramor yn ogystal â sut rydym yn sicrhau bod ein holl staff yn gallu cael mynediad i lwybrau gyrfa priodol i'w hannog i aros gyda ni.
- Strategaeth hysbysebu gynhwysfawr.
- Ehangiad sylweddol mewn hyfforddeiaethau a secondiadau.
- Datblygu a lansio Academi Gofal i ddarparu llwybr gyrfa i staff gofal.
- Adolygiadau systematig o rolau swyddi i sicrhau bod ein rolau'n adlewyrchu'r dasg sydd ei hangen.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'r undebau llafur ac ar hyn o bryd rydym yn ystyried pa gamau y gallwn eu cymryd i gefnogi staff Gofal Cartref gydag effaith enfawr y cynnydd mewn tanwydd.

Rydym yn cydnabod bod y ddwy flynedd ddiwethaf wedi cael effaith emosiynol a seicolegol enfawr ar lawer o'n staff, ac ni ddylid diystyru hyn. Fel adran, rydym wedi annog staff i ddod ymlaen fel Hyrwyddwyr Llesiant ac yn awr mae gennym Grŵp o Hyrwyddwyr Llesiant sy'n cyfarfod yn rheolaidd i weithio drwy rai o'r heriau llesiant ac i gyflwyno awgrymiadau ar gyfer meysydd i'w gwella i'n Tîm Rheoli Adrannol. Rydym hefyd yn darparu cymorth llesiant pwrpasol ar lefel tîm lle rydym yn wynebu heriau.

Gofynasom gwestiwn i holl staff yr Adran, sef "Sut Gyflogwr yw eich Is-adran?" er mwyn deall eu profiad o weithio yn yr adran a'r Is-adran. Roedd yr ymateb yn gyson â blynyddoedd blaenorol fel "Da", er gwaethaf y pwysau parhaus.

Mae gweithwyr gofal Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cael eu cydnabod yn Rhestr Anrhydeddau Blwyddyn Newydd y Frenhines am eu gwasanaethau i iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod pandemig Covid-19.

Dyfarnwyd Medal yr Ymerodraeth Brydeinig i Lisa Randell, Gweithiwr Cymorth, a Lyndsay McNicholl, Rheolwr Cartref Gofal yng Nghartref Preswyl Llys y Bryn yn Llanelli, am eu hymroddiad a'u penderfyniad drwy gydol yr argyfwng.



# Y Gymraeg

O fewn Adran y Cymunedau, rydym wedi sicrhau bod y cynnig rhagweithiol yn flaenoriaeth, a chydnabuwyd hyn mewn arolygiad diweddar gan AGC o ofal cartref. Nododd AGC fod y gwasanaeth, yn unol â pholisi a chyfeiriad Sir Gaerfyrddin, yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn adnabod, ac yn cwrdd ag anghenion iaith a diwylliant Cymreig pobl sy'n defnyddio neu all ddefnyddio'r gwasanaeth.

> "Mae pobl yn derbyn gofal a chymorth sy'n cwrdd â'u hanghenion. Mae'r staff yn wybodus, yn ofalgar ac yn ymfalchïo yn y gofal a'r cymorth a ddarperir ganddynt. Mae cynlluniau personol yn darparu gwybodaeth dda am yr unigolyn ac mae cofnodion dyddiol yn cefnogi'r rhain. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' y Gymraeg. Mae llawer o'r staff yn siaradwyr Cymraeg, sy'n golygu bod pobl yn gallu cyfathrebu yn Gymraeg neu Saesneg fel y mynnont."
>
> Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Er nad yw Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi cyfarfod mor aml yn ystod y Pandemig, mae mynediad i hyfforddiant wedi parhau ac mae cyfanswm o 72 o staff wedi cwblhau eu hyfforddiant. Mae cynaliadwyedd y Gymraeg yn dibynnu ar ddarparu digon o gyfleoedd addysgol, diwylliannol a chymdeithasol i ddefnyddio'r iaith yn feunyddiol ac mae hyn yn rhan hanfodol o strategaeth ein gweithlu.

Yn 2022 rydym wedi cynllunio i gynnal gweithdy i adnewyddu ein strategaeth Iaith Gymraeg o fewn yr adran. Mae hybu'r Gymraeg a'i diwylliant yn flaenoriaeth i adran y Cymunedau gan ei bod wrth galon ein cymunedau yn Sir Gaerfyrddin.

Bydd adolygiad o'n strategaeth yn rhoi'r cyfle inni adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud yn Sir Gaerfyrddin, a chreu'r amodau a fydd yn galluogi'r Gymraeg i ffynnu, er mwyn sicrhau y gellir ei gweld a'i chlywed yn ein cymunedau ac ymhlith ein gweithlu. Bydd y strategaeth yn cefnogi ac yn cyfrannu at weledigaeth Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.

Yn ein harolwg blynyddol o bobl sy'n derbyn gofal a chymorth roedd 91% yn gallu cyfathrebu yn yr iaith oedd orau ganddynt.

“Gwelsom fod ‘Cynnig Rhagweithiol’ y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo gydag iaith gyntaf pobl yn cael ei chofnodi a gwasanaethau’n cael eu darparu yn newis iaith pobl. Mae dewis iaith yn cael ei gydnabod fel ffactor allweddol wrth adeiladu perthynas effeithiol rhwng pobl ac ymarferwyr.”

Gwiriad Sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) 2021:
Cyngor Sir Caerfyrddin

# Diweddglo a’r Camau Nesaf

## Gwasanaethau Plant

| Rhif | Cam gweithredu | Gan bwy |
|---|---|---|
| 1 | Byddwn yn parhau i drawsnewid ymarfer gwaith cymdeithasol plant drwy **ddull sy’n seiliedig ar Berthynas** sy’n ymgorffori meddwl systemig ac egwyddorion Arwyddion Diogelwch. | |
| 2 | Bydd **rheolwyr yn parhau i oruchwylio a herio** Asesiadau a Chynlluniau Gofal a Chymorth yn effeithiol i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau, gan ddangos tystiolaeth o lais y plentyn, ac yn adlewyrchu egwyddorion sylfaenol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. | |
| 3 | Byddwn yn adolygu ac yn monitro y ffordd y mae’r **Strategaeth Rhianta Gorfforaethol** yn cael ei gweithredu gan sicrhau bod y cyngor yn cyflawni ei rôl Rhianta Corfforaethol a bod ein plant sy’n derbyn gofal a’r rhai sy’n gadael gofal yn cael y cyfle i gyrraedd eu llawn botensial. | |
| 4 | Byddwn yn parhau i ddatblygu a darparu’r gwasanaethau **cymorth ymyrraeth gynnar** (0-25) ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd difreintiedig ar draws y sir yn unol â’r Strategaeth Cymorth i Deuluoedd, gan ddefnyddio cyfleoedd i integreiddio gwasanaethau ar draws y Grant Plant a Chymunedau a chyfleoedd ariannu hyblyg gyda'r Grant Cymorth Tai. | |
| 5 | Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gynyddu’r ystod o leoliadau i sicrhau **sefydlogrwydd lleoliadau** a sefydlogrwydd mewn addysg mewn perthynas â phlant sy’n derbyn gofal, gan gynnwys llety drwy weithredu gwasanaeth llety â chymorth mewnol. Bydd hyn yn cynnwys datblygu gwasanaeth preswyl mewnol. | |

## Gofal Cymdeithasol Oedolion a Gwasanaethau Integredig

| Rhif | Cam gweithredu | Gan bwy |
|---|---|---|
| 1 | Datblygu strategaeth 10 mlynedd ar gyfer Gofal Cymdeithasol yn ymgorffori gwasanaethau Plant ac Oedolion. | Cyfarwyddwr |
| 2 | Datblygu a gweithredu Strategaeth Drawsnewid Ddigidol ar gyfer yr adran. | GM |
| 3 | Datblygu a chyflwyno Cynllun gweithlu i recriwtio, cadw a datblygu staff i sicrhau gweithlu cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. | AB |
| 4 | Sicrhau ein bod yn gweithredu'r fframwaith cartref newydd sy'n mynd i'r afael yn effeithiol â'r diffyg gofal cartref sydd ar gael i gefnogi oedolion agored i niwed. | CH |
| 5 | Ail-fodelu a thyfu gwasanaeth gofal cartref mewnol o safon, cynaliadwy ac effeithlon ochr yn ochr â sector preifat a micro-fentrau effeithiol. | AB |
| 6 | Datblygu a gweithredu Strategaeth Atal ar gyfer Sir Gaerfyrddin a fydd yn cynnwys parhau i weithio mewn partneriaeth â Llesiant Delta i gefnogi ein trigolion. | AW |

# Strwythur Rheoli’r Adran

